sir ddinbych denbighshire
Cyngor
County Council

# Strategaeth Hinsawdd a Natur Cyngor Sir Ddinbych 2021/22 i 2029/30 (Fersiwn Ddiwygiedig Blwyddyn 3)

| | |
|---|---|
| **Disgrifiad:** | Y ddogfen hon yw Fersiwn Diwygiedig Blwyddyn 3 o'r Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol Cyngor Sir Ddinbych a fabwysiadwyd yn 2021. Mae'n sôn wrthych chi am amcanion Carbon Sero Net ac Ecolegol Gadarnhaol y Cyngor a'r tasgau yr ydym ni am geisio eu cyflawni i gyrraedd ein nod ar gyfer 2030. Yn ogystal â gwaith y Cyngor ym maes gweithredu dros yr hinsawdd ac adfer natur ar draws Sir Ddinbych a'i nod i gynyddu cydnerthedd hinsawdd. |
| **Crëwyd gan:** | Liz Wilcox-Jones (LWJ) |
| **Dyddiad cynhyrchu:** | Mehefin 2024 |
| **Caiff ei gynnal gan:** | Liz Wilcox-Jones (LWJ) |

Fersiwn Terfynol 1.0 – 2024

## Rheoli fersiwn

| Fersiwn | Dyddiad a addaswyd | Addaswyd gan | Yr addasiadau a wnaed | Statws |
|---|---|---|---|---|
| Adolygiad Terfynol Blwyddyn 3, Mehefin 2024 | Mehefin 2024 | LWJ | Fersiwn terfynol ar ôl ymgynghori ac yn dilyn yr adborth a gafwyd, wedi'i gyflwyno i'w fabwysiadu gan y Cabinet a'r Cyngor | Terfynol |

## Beth yw'r ddogfen hon?

Ym mis Gorffennaf 2019, gwnaeth Cyngor Sir Ddinbych ddatgan Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol.

Mewn ymateb i hynny ac erbyn 31 Mawrth 2030, nod y Cyngor yw dod yn:

- Gyngor Carbon Sero Net
- Cyngor Ecolegol Gadarnhaol

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys rhagor o fanylion am y ddwy nod hyn, a tharged y Cyngor i sicrhau gostyngiad o 35% mewn allyriadau carbon o'r gadwyn gyflenwi erbyn 2030 a'r tasgau y byddwn yn ceisio eu cwblhau i gyflawni'r nodau hyn erbyn 2030. Cyhoeddwyd y ddogfen hon yn gyntaf yn 2021 ac mae wedi cael ei hadolygu a'i hadnewyddu am y tro cyntaf 3 blynedd yn ddiweddarach i greu'r fersiwn hon. Mae'r ddogfen yn egluro'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r amcanion hyn ers 2021 ac mae'n cynnwys adrannau newydd ar weithredu dros yr hinsawdd ac adfer natur ac Ymaddasu i Newid Hinsawdd (cydnerthedd hinsawdd) ledled y Sir. Mae enw'r ddogfen hefyd wedi newid o Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol Cyngor Sir Ddinbych i Strategaeth Hinsawdd a Natur Cyngor Sir Ddinbych. Mae crynodeb gweithredol a fersiwn ar gyfer pobl ifanc o'r ddogfen hon ar gael.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg, a gall fod ar gael mewn fformatau eraill ar gais.

I gael rhagor o wybodaeth ar unrhyw beth yn y ddogfen hon, cysylltwch â’r Tîm Newid Hinsawdd:

**E-bost:** newidhinsawdd@sirddinbych.gov.uk

**Rhif ffôn:** 01824 706000 (Dydd Llun i Ddydd Gwener 8:30am i 5pm).

**Ysgrifennwch atom ni:** Tîm Newid Hinsawdd, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ

# Cynnwys


Croeso i Strategaeth Hinsawdd a Natur Cyngor Sir Ddinbych 7
Yr hinsawdd sy'n newid a dirywiad byd natur 9
Sut mae'r strategaeth hon wedi'i datblygu 12
Strategaethau Eraill y Cyngor 14
Cyngor Carbon Sero Net erbyn 2030 15
Beth yw ein nod? 15
Carbon Sero Net 15
Y Gadwyn Gyflenwi 16
Beth yw ein man cychwyn? 16
Carbon Sero Net 16
Y Gadwyn Gyflenwi 21
Ble rydym ni eisiau cyrraedd? 22
Carbon Sero Net 22
Y Gadwyn Gyflenwi 34
Pa newidiadau a chamau gweithredu fydd yn ein helpu ni i gyrraedd yno? 38
Newidiadau i brosesau a pholisïau'r Cyngor 38
Camau Gweithredu a Phrosiectau 41
Lleihau Allyriadau Carbon a Chynyddu Amsugnad Carbon ar draws Sir Ddinbych - Defnyddio Ein Dylanwad 47
Pam mae hyn yn bwysig? 47
Beth yw'r man cychwyn? 47
Tabl 6: Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr ar draws Ardaloedd Sir Ddinbych ers 2019/20 48
Pa newidiadau a chamau mae'r Cyngor yn eu cymryd i ddefnyddio ein dylanwad i leihau allyriadau carbon a chynyddu amsugniad carbon yn Sir Ddinbych? 50
Newidiadau i brosesau a pholisïau'r Cyngor 50
Camau Gweithredu a Phrosiectau 52
Cynyddu ein Gwytnwch i Effeithiau Newid Hinsawdd 55
Pam mae hyn yn bwysig? 55
Beth yw'r man dechrau? 56
Pa newidiadau a chamau mae'r Cyngor yn eu rhoi ar waith i wella gwydnwch yn erbyn risgiau i'r hinsawdd? 58
Newidiadau i brosesau a pholisïau'r Cyngor 58
Camau Gweithredu a Phrosiectau 58
Cyngor Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030 60
Beth yw ein nod? 60
Beth yw ein man cychwyn? 60
Tabl 8: Gwahanol fathau o gynefinoedd 61

Siart 12: Faint o dir mae Cyngor Sir Ddinbych yn berchen arno ac mae'n ei weithredu ym mhob math o gynefin sy'n amrywio o ran eu cyfoeth o rywogaethau yn 2019/20 o'i gymharu â 2022/23 65
Ble rydym ni eisiau cyrraedd? 66
Tabl 9: Y newid yng nghanran cynefinoedd sydd â'r cyfoeth uchaf ac isaf o ran rhywogaethau 67
Siart 13: Cynnydd Blynyddol Cyfoeth Rhywogaethau Sir Ddinbych hyd at 2022/23 a'r targed blynyddol. 68
Neges 4: Adfer Natur 69
Pa newidiadau a chamau gweithredu fydd yn ein helpu ni i gyrraedd yno? 71
Newidiadau i brosesau a pholisïau'r Cyngor 71
Camau Gweithredu a Phrosiectau 72
Cefnogi Adferiad Natur ar draws Sir Ddinbych - Defnyddio ein Dylanwad 74
Pam mae hyn yn bwysig? 74
Beth yw'r man cychwyn? 74
Delwedd 1 – Dosbarthiad glaswelltir yn Sir Ddinbych a choridorau cysylltiedig ar gyfer natur cyn 2018 76
Delwedd 2 – Dosbarthiad glaswelltir yn Sir Ddinbych a choridorau cysylltiedig ar gyfer natur yn 2023 77
Pa newidiadau a chamau mae'r Cyngor yn eu cwblhau i ddefnyddio ein dylanwad i gefnogi adferiad natur ar draws Sir Ddinbych? 77
Newidiadau i brosesau a pholisïau'r Cyngor 77
Camau Gweithredu a Phrosiectau 78
Strategaeth ariannol i gefnogi'r strategaeth a'r cynllun gweithredu 81
Sut bydd cynnydd yn cael ei fonitro? 83
Sut byddwn ni'n rhannu'r hyn a ddysgwyd? 85
Atodiadau Technegol 87
Atodiad 1 - Rhagor o wybodaeth ar feysydd lle mae'r targed wedi profi i fod yn heriol iawn 87
Atodiad 2 - Prosiectau/Gweithgareddau a Newidiadau Polisi / Prosesau wedi'u Cwblhau i gyfrannu at gyflawni'r Nod Sero Carbon Net 90
Atodiad 3 - Prosiectau/Gweithgareddau a Newidiadau Polisi / Prosesau wedi'u Cwblhau i gyfrannu at leihau allyriadau carbon a chynyddu lefelau amsugno carbon ar draws Sir Ddinbych - Defnyddio ein Dylanwad 92
Atodiad 4 - Prosiectau/Gweithgareddau a Newidiadau Polisi / Prosesau wedi'u Cwblhau i gyfrannu at gyflawni'r Nod Ecolegol Gadarnhaol 93
Atodiad 5 - Prosiectau/Gweithgareddau a Newidiadau Polisi / Prosesau wedi'u Cwblhau i gyfrannu at gefnogi adferiad natur ar draws Sir Ddinbych - Defnyddio Ein Dylanwad 94
Atodiad 6- Cynnydd Rhaglen Waith Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol Sir Ddinbych 95
Atodiad 7 - Cymhariaeth o'r Dadansoddiad o Gadwyn Gyflenwi Sir Ddinbych ar gyfer 2019/20 (gwaelodlin) a 2022/23 100

## Croeso i Strategaeth Hinsawdd a Natur Cyngor Sir Ddinbych

Newid hinsawdd ac ecolegol yw her fyd-eang fwyaf ein hoes. Mae'n effeithio ar bopeth byw y mae'r ddaear hon yn gartref iddo, gan gynnwys chi a fi. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu ein amcanion carbon sero net ac ecolegol gadarnhaol ar gyfer y Cyngor ynghyd â'r newidiadau a'r camau gweithredu yr ydym ni wedi'u nodi hyd yma y byddwn ni'n ceisio eu cyflawni rhwng nawr a 2030. Yn hwn, y cyntaf o ddau adolygiad ac adnewyddiad o fewn cyfnod y strategaeth (2021-2030), rydym hefyd yn cydnabod yr angen i, a rôl y Cyngor yn, cefnogi a dylanwadu dull ehangach i ostwng carbon, storio (neu amsugno) carbon, ac adfer natur ar draws y sir, ac am y tro cyntaf, mae'n cynnwys ffyrdd i fynd i'r afael â'r risg hinsawdd drwy addasu.

Ers i Gyngor Sir Ddinbych ddatgan ei argyfwng newid hinsawdd ac ecolegol yn 2019, a mabwysiadu'r strategaeth hon yn 2021, rydym wedi bod yn gweithio i gyflawni ein nodau 2030 a chyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol yr ydym ni gyd yn ei hwynebu. Rydym yn falch i fod yn un o'r Cynghorau cyntaf yng Nghymru i nodi mynd i'r afael â'r newid hinsawdd ac ecolegol fel egwyddor arweiniol yn ein proses wneud penderfyniadau, gan newid ein Cyfansoddiad yn ffurfiol fis Hydref 2020 - y gyfres o reolau ac egwyddorion mae'r Cyngor yn eu dilyn wrth gyflawni eu gwaith. Rydym hefyd yn awyddus i ddatblygu ein hanes blaenorol cryf o ostwng carbon a gwella bioamrywiaeth dan ein blaenoriaeth Cynllun Corfforaethol Amgylcheddol blaenorol a'n thema Cynllun Corfforaethol (2022-28) ddiweddaraf 'Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd'. Drwy weithio i gyflawni nodau 2030 o fewn y strategaeth hon, gobeithiwn gyfrannu at ostwng allyriadau carbon i sero net yng Nghymru erbyn 2050 a darparu ein dyletswydd statudol fel awdurdod lleol i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cadernid ecosystemau fel yr amlinellir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 . Drwy weithio i gyflawni'r nodau hyn, gobeithiwn gyfrannu at y targed o gyflawni sero carbon net yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru erbyn 2030 fel yr amlinellir yng nghynllun cyflawni Ffyniant i Bawb: Cymru Carbon Isel.

Mae cynnydd da wedi'i wneud mewn nifer o feysydd allweddol megis gwastraff, goleuadau stryd a theithio busnes, ynghyd â dechrau cyflwyno isadeiledd Cerbydau trydan - gan gynnwys agor y ganolfan wefru fwyaf yng Nghymru ym maes parcio Gorllewin Stryd Cinmel, a ariannir gan Lywodraeth Cymru. Rydym hefyd wedi llwyddo i adfer natur yn y sir drwy'r prosiect Dolydd Blodau Gwyllt, lle caiff glaswelltir y Cyngor ei reoli i gynnal bioamrywiaeth, a phrosiect Diogelu Môr-wenoliaid Bach yng Ngronant, sydd bellach yn un o'r rhai pwysicaf ym Mhrydain. Rydym ar y trywydd iawn, ond ni allwn sefyll yn llonydd ac

mae'r cyfyngiadau ariannol difrifol yr ydym ni, ynghyd â chynghorau lleol eraill, yn eu hwynebu yn cael effaith ar ein gallu i gyflawni ein huchelgeisiau i fynd i'r afael â'r hinsawdd ac adfer natur. Mae bellach wedi dod i'r amlwg, er ein bod yn gwneud cynnydd cadarnhaol ar y rhaglen hon, nad yw'r newidiadau'n cael eu gwneud yn ddigon cyflym ar hyn o bryd i fodloni ein targedau 2030, ac mae rhai meysydd yn arbennig, gan gynnwys defnydd tir ac adeiladau, yn cael trafferth i gyrraedd targedau. Bydd y pwysau ariannol y mae pob awdurdod lleol yn eu hwynebu ar hyn o bryd a thros y blynyddoedd i ddod yn cael effaith bellach ar gyflymder y datblygiadau. Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd bod buddion ychwanegol ynghlwm â llawer o'r gwaith a gwblheir ar y rhaglen hon. Mae camau gweithredu i ostwng carbon, sydd hefyd yn aml yn lleihau costau i'r Cyngor, ac yn cynyddu bioamrywiaeth er budd natur hefyd yn creu gofod ar gyfer iechyd a lles, addysg a hamdden i'n cymunedau.  Mae nifer o resymau dros weithio i fynd i'r afael â'r argyfyngau hyn a'u lliniaru gan barhau i anelu'n uchel ac ymdrechu i gyflawni ein huchelgeisiau.

Ni fydd cyflawni'r nodau ar gyfer 2030 yn hawdd, ond byddwn yn cynnal ein huchelgais ac ni fyddwn yn addasu'r targedau, er gwaethaf yr her, wrth i ni symud ymlaen i 3 blynedd nesaf y strategaeth.  Rydym yn parhau i ymrwymo i wneud gymaint â phosibl, cyn gynted â phosibl, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ni, er mwyn i ni fedru cyfrannu at fynd i'r afael â'r newid hinsawdd a helpu i adfer natur er mwyn cefnogi lles a diogelwch ein cymunedau, staff a'n partneriaid nawr ac am genedlaethau i ddod.



**Y Cynghorydd Barry Mellor** (Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant)



**Gary Williams** (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Llywodraethu a Busnes)

## Yr hinsawdd sy'n newid a dirywiad byd natur

Gan fod y swm o garbon deuocsid ($CO_2e$[1]) y mae cymdeithas ddynol wedi'i ryddhau i atmosffer y ddaear wedi cynyddu, mae tymheredd byd-eang wedi cynyddu hefyd. Os na fydd allyriadau $CO_2e$ yn lleihau bydd y ddaear yn cynhesu ac yn cynhesu. Mae'r cynnydd hwn yn nhymheredd byd-eang yn achosi i'n hinsawdd a'n planed newid.

Mae'r newidiadau i'n hinsawdd yn cynnwys: hafau poethach a sychach, gaeafau cynhesach a gwlypach, digwyddiadau mwy eithafol yn ymwneud â'r tywydd a lefel y môr yn codi. Mae hyn yn achosi: mwy o sychder a thanau gwyllt, stormydd cryfach, mwy o gyfnodau o dywydd poeth iawn, llifogydd, difrod i gwrelau, llai o eira a rhew, rhew parhaol yn dadmer, newidiadau yng nghylchoedd bywyd planhigion a newidiadau i arferion mudo anifeiliaid a chylchoedd bywyd.

Ar yr un pryd, mae natur yn dirywio ac mae cred bod dirywiad o 69% yn niferoedd bywyd gwyllt y byd ers 1970[2]. Mae gweithgarwch pobl yn lleihau ansawdd a faint o gynefin sydd ar gael i fywyd gwyllt ac mae cynefinoedd yn mynd yn fwyfwy tameidiog sy'n effeithio ar allu rhywogaethau i ymfudo ac aros yn y cynefin maent ei angen i fyw, cwblhau eu cylchoedd bywyd ac effeithio ar eu goroesiad. Wrth i'r tymheredd barhau i godi, ac wrth i faint a chysylltedd cynefinoedd barhau i ddirywio, bydd newid hinsawdd yn arwain fwyfwy at golli rhywogaethau.

Mae'r hinsawdd yn newid ym mhob man ar ein planed, gan gynnwys yma yng Ngogledd Cymru. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r rhanbarth wedi gweld mwy o lifogydd a hynny'n amlach, gwres llethol a stormydd cryfach a mwy cyson. Mae nifer y rhywogaethau yng Nghymru, sef 380, sydd wedi cael eu monitro wedi gostwng 20% ers 1994. Mae 18% o'r rhywogaethau sy'n bresennol yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu, mae hynny'n golygu un ym mhob rhywogaeth, gan gynnwys llygoden bengron y dŵr a madfall y twyni[3]. Mae Cymru hefyd yn y 10% isaf o wledydd o ran bioamrywiaeth, sy'n dangos pa mor ddinistriol mae colli bioamrywiaeth wedi bod i'n cenedl dros y degawdau diwethaf.  Mae

---

[1] Mae $CO_2e$ yn dalfyriad ar gyfer "carbon deuocsid a'i gyfatebol" a ddefnyddir i ddisgrifio gwahanol nwyon tŷ gwydr mewn uned gyffredin - carbon.
[2]Yn ôl adroddiad Living Planet World Wildlife Fund (WWF), 2022
[3]Yn ôl Adroddiad Sefyllfa Byd Natur (Cymru), 2023

nifer y pathewod ledled Prydain, er enghraifft, wedi gostwng 51% ers 2000[4] ac ym mhob un o'r hen gadarnleoedd ar hyd Sir Ddinbych. Ers y 1970au, mae'r dosbarthiad o 42% o rywogaethau o blanhigion sy'n blodeuo yng Nghymru hefyd wedi gostwng. Mae'r tueddiadau hyn wedi arwain nifer o arbenigwyr i rybuddio am y perygl o'r ecosystemau yr ydym yn dibynnu arnynt yn dymchwel.

Mewn ymateb i'r argyfwng natur hwn, mae gan Gymru bellach gyfres newydd o dargedau bioamrywiaeth dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig. Mae'r adroddiad ar Gyflwr Natur[3] yn mynd i'r afael â'r angen i ymateb i'r argyfwng hwn ac yn amlinellu'r meysydd allweddol posibl i ganolbwyntio arnynt. Er enghraifft, yr angen i wella cynefinoedd gwarchodedig Cymru, gydag ond 35% wedi'u nodi fel rhai mewn cyflwr ffafriol. Yn 2023, cofnodwyd sawl record o ran tymheredd a glaw yn ogystal â sawl storm a enwyd yn y DU, ac mae'r data diweddar gan y Swyddfa Dywydd yn dangos pa mor gyflym mae ein hinsawdd yn parhau i newid. Cadarnhawyd mai 2023 oedd y flwyddyn gynhesaf a gofnodwyd erioed ac mae'r tymheredd byd-eang wedi cynyddu tua 1.2˚C yn uwch na lefelau cyn-ddiwydiannol. Ym mis Hydref 2018, cyhoeddodd y Panel Rhynglywodraethol ar y Newid yn yr Hinsawdd (IPCC) adroddiad arbennig ar effeithiau tymheredd byd-eang yn cynyddu 1.5˚C. Daeth IPCC i'r casgliad y byddai cynnydd o 1.5˚C yn cael effeithiau is o lawer ar y byd naturiol a'r gymdeithas ddynol o ran yr hinsawdd na chynnydd o 2˚C. Roedd yr IPCC yn amcangyfrif y byddai allyriadau carbon y byd angen lleihau i net sero erbyn 2050 fan bellaf i sicrhau bod y cynnydd yn nhymheredd y byd yn aros o dan 1.5˚C ac y byddai angen cwblhau'r rhan fwyaf o'r camau i gyflawni'r targed hwn erbyn 2030. Fodd bynnag, mae lefelau nwyon tŷ gwydr yn parhau i gynyddu'n gyflym ac mae'r IPCC wedi datgan yn ddiweddar ei bod yn "debygol" y bydd y byd yn cynhesu yn uwch na 1.5C.

Mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â'r newid hinsawdd a'r dirywiad mewn natur ar draws y byd. Un enghraifft o brosiect llwyddiannus o ran rhywogaethau, sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad ar Gyflwr Natur 2023, yw diogelu môr-wenoliaid bach yn Sir Ddinbych, ac mae'r brif nythfa fagu Gymreig yng Ngronant bellach yn un o'r rhai pwysicaf

[4] Yn ôl Adroddiad Cyflwr Pathewod Prydain, 2019

ym Mhrydain.  Mae arweinwyr o bron i 200 o wledydd wedi cytuno i gymryd camau pellach i gadw draw o danwyddau ffosil yn COP28 a chynyddu ynni adnewyddadwy erbyn 2030.

Fodd bynnag, mae amser yn brin ac mae hynny'n dod yn fwy amlwg. Mae sefydliadau, gan gynnwys Cyngor Sir Ddinbych, a dros 300 o awdurdodau lleol eraill yn y DU, yn parhau i ymrwymo i fynd i'r afael â'r newid hinsawdd a'r argyfwng natur ac yn deall bod angen gweithredu ar unwaith.  Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU hefyd wedi datgan argyfwng hinsawdd, a chafwyd datganiad o argyfwng natur gan Lywodraeth Cymru yn 2021 hefyd.  Mae Llywodraeth Cymru wedi creu Trywydd ar gyfer Datgarboneiddio ar draws Sector Cyhoeddus Cymru a'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur i arwain y sector cyhoeddus i gyflawni cynnydd clir erbyn 2030.

## Sut mae'r strategaeth hon wedi'i datblygu

Gwnaeth Cyngor Sir Ddinbych ddatgan Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol ym mis Gorffennaf 2019, oedd yn ymrwymo'r Cyngor i fod yn garbon sero net erbyn 2030 a gwella bioamrywiaeth.

Cynhaliodd Cyngor Sir Ddinbych gyfnod ymgysylltu ym mis Ionawr a mis Chwefror 2020 yn gofyn am adborth y cyhoedd ar amcanion carbon sero net arfaethedig y Cyngor a'i amcanion ecolegol gadarnhaol ac am unrhyw syniadau ynghylch sut y gall y Cyngor eu cyflawni nhw erbyn 2030. Gan ddatblygu syniadau'r cyhoedd, bu Cyngor Sir Ddinbych yn gweithio drwy gydol 2020 gyda Chynghorwyr a Swyddogion o bob rhan o'r Cyngor i ddatblygu Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol y Cyngor (2021/22 – 2029/30). Roedd hyn yn cynnwys cyfrifo ôl troed carbon y Cyngor a bioamrywiaeth tir y Cyngor, archwilio ein llwybr targed at 2030 trwy gynllunio sefyllfaoedd a chynnal gweithdai â phob maes gwasanaeth sy'n rhan o'r Cyngor i nodi a datblygu pa newidiadau y gallem ni eu gwneud a pha brosiectau y gallem ni eu cyflawni i helpu'r Cyngor gyflawni ei amcanion.

Ym mis Tachwedd 2020, gofynnodd y Cyngor i'w staff a'r cyhoedd am eu hadborth ar y ddogfen ddrafft. Mae'r adborth hwn wedi helpu i siapio Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol derfynol y Cyngor (2021/22 – 2029/30) a gyflwynwyd i Aelodau Etholedig Sir Ddinbych ym mis Chwefror 2021 i'w mabwysiadu. Ers hynny, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio i gyflawni'r newidiadau a'r prosiectau a nodir yn y strategaeth i helpu'r Cyngor i gyflawni ei nodau ar gyfer 2030. Bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu a'i hadnewyddu'n ffurfiol bob 3 blynedd tan 2030 (2023/24 a 2026/27).

Y Fersiwn Ddiwygiedig Blwyddyn 3 hon o'r strategaeth yw canlyniad y cyntaf o ddau adolygiad a diweddariad ffurfiol. Defnyddiwyd yr un dull a ddefnyddiwyd yn 2020 fel y disgrifir uchod. Cynhaliwyd arolwg cyhoeddus ar-lein yn nhymor y gwanwyn 2023 a digwyddiad ymgynghori ym mis Tachwedd 2023 a ddarparodd wybodaeth i fwydo i'r adolygiad a'r diweddariad. Cynhaliwyd gweithdai gyda phob maes gwasanaeth yn y Cyngor i nodi unrhyw newidiadau pellach y gellid eu gwneud a phrosiectau y gallwn eu darparu i helpu'r Cyngor i gyflawni ei nodau. Pan ddatganodd y Cyngor argyfwng hinsawdd ac ecolegol yn 2019, roedd ein strategaeth ddilynol yn canolbwyntio ar leihau carbon, storio carbon ac adfer natur. Ers hynny, mae'r adborth yr ydym wedi'i dderbyn

gan y cyhoedd a thystiolaeth am ein dylanwad fel cyngor, wedi amlygu'r angen i ni ehangu cwmpas y strategaeth ac edrych yn ehangach.  Yn y Fersiwn Ddiweddaraf hon ym Mlwyddyn 3 o'r strategaeth, rydym yn cydnabod y pwysigrwydd i ni ystyried mynd i'r afael â'r argyfwng ar draws y sir a chydnabod bod angen i'r Cyngor ymateb mewn modd strategol, sefydliadol a gweithredol, ond hefyd ar lefel gymunedol ar draws Sir Ddinbych.

Mae grŵp tasg a gorffen y Gweithgor Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol, a sefydlwyd fel rhan o'r datganiad argyfwng, wedi arwain y gwaith hwn. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys dau gynrychiolydd o bob un o bleidiau gwleidyddol y Cyngor gan gynnwys aelodau arweiniol y Cabinet sy'n gyfrifol am y newid hinsawdd a'r newid ecolegol.

Mae ein cyfrifiadau ar gyfer y waelodlin a'r uchelgeisiau Di-garbon Net wedi dilyn y fethodoleg ar gyfer cyfrifo allyriadau carbon ac amsugniad carbon yng Nghyfundrefn Adrodd Nwyon Tŷ Gwydr Llywodraeth Cymru ar gyfer Sector Cyhoeddus Cymru.

Mae ein cyfrifiadau ar gyfer gwaelodlin ac amcanion bod yn Ecolegol Gadarnhaol wedi cael eu harwain gan fethodoleg sefydledig ar gyfer mesur gwerth bioamrywiaeth NERC - Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU. Mae bioamrywiaeth yn eang, yn gymhleth ac yn rhyng-gysylltiedig ac felly awgrym yn unig yw unrhyw fesur o werth bioamrywaieth.

Ym mis Mawrth 2024, gofynnodd y Cyngor i'r staff a'r cyhoedd am eu hadborth ar y Fersiwn Ddiweddaraf ddrafft hon ym Mlwyddyn 3 o'r strategaeth. Mae'r adborth hwn wedi helpu i lunio Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol derfynol (2021/22 – 2029/30) - Fersiwn Ddiwygiedig Blwyddyn 3 a gyflwynwyd wedyn i Aelodau Etholedig Sir Ddinbych ym mis Gorffennaf 2024 i'w mabwysiadu.

## Strategaethau Eraill y Cyngor

Mae nifer o strategaethau eraill gan y Cyngor, a meysydd gwaith y mae'r Cyngor yn ymgymryd â nhw, sy'n cefnogi'r Cyngor i fynd i'r afael â newid hinsawdd a newid ecolegol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Strategaeth Gostwng Carbon Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol a Digartrefedd 2023
- Cynllun Rheoli Ansawdd Aer
- Strategaeth Clefyd Coed Ynn (yn cael ei ddatblygu gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar hyn o bryd)
- Cynllun Corfforaethol.
- Cynllun Rheoli AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
- Strategaeth Rhandiroedd y Sir (yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd)
- Cynllun Rheoli Asedau Tai Cymdeithasol Cyngor Sir Ddinbych
- Cynllun Teithio Llesol Cyngor Sir Ddinbych
- Cynllun Ynni Ardal Leol Sir Ddinbych (yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd)
- Cynllun Rheoli Asedau Ystâd Annomestig Cyngor Sir Ddinbych
- Polisi Rheoli Datblygu a Chynllunio
- Ddigidol a Band Eang
- Strategaeth Economaidd (yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd)
- Polisi newid cerbydau am rai trydan
- Strategaeth Fflyd
- Y Strategaeth Tai a Digartrefedd
- Cynllun Datblygu Lleol
- Strategaeth Leol Rheoli Perygl Llifogydd
- Strategaeth Gaffael a Chomisiynu 2023 - 2027
- Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy
- Strategaeth Goed a Choetir (yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd)

# Cyngor Carbon Sero Net erbyn 2030

## Beth yw ein nod?

### Carbon Sero Net

Ein nod yw i gyfanswm y carbon y caiff ei ryddhau gan y Cyngor namyn cyfanswm y carbon sy’n cael ei amsugno gan dir sy’n eiddo i’r Cyngor ac sy’n cael ei weithredu ganddo fod yn sero erbyn 31 Mawrth 2030. Dyma ein nod carbon sero net.[5]

Bydd y ffynonellau allyriadau canlynol yn cyfrif tuag at ein nod carbon sero net a chyfeirir atynt gyda’i gilydd fel Ôl-troed Carbon Sero Net Cyngor Sir Ddinbych:

| | |
|---|---|
| **Adeiladau** | Byddwn ni’n lleihau allyriadau o’r trydan, nwy, LPG, olew, biomas a’r dŵr yr ydym ni’n ei ddefnyddio mewn adeiladau sy’n eiddo i’r Cyngor.[6] |
| **Gwastraff** | Byddwn ni’n lleihau allyriadau o'r gwastraff sy’n cael ei gynhyrchu gan y Cyngor. |
| **Fflyd** | Byddwn ni’n lleihau allyriadau o’r petrol a’r disel yr ydym ni’n ei ddefnyddio ar gyfer cerbydau sy’n eiddo i’r Cyngor |
| **Staff sy’n teithio i’r gwaith** | Byddwn ni’n lleihau'r allyriadau o'r teithio sy’n cael ei wneud gan staff a chynghorwyr sy'n dod i'r gwaith ac yn dychwelyd adref. |
| **Goleuadau stryd** | Byddwn ni’n lleihau allyriadau o'r trydan sy’n cael ei ddefnyddio gan bolion goleuadau ac arwyddion traffig sy'n eiddo i'r Cyngor. |

[5] Nid yw tir sy’n eiddo i’r Cyngor y mae’n ei rentu i eraill wedi'i gynnwys.
[6] Mae adeiladau sy'n eiddo i'r Cyngor yn golygu adeiladau fel swyddfeydd, depos, ysgolion a chanolfannau hamdden y mae'r Cyngor yn berchen arnynt. Fodd bynnag, nid yw Tai Cyngor wedi'u cynnwys.

**Teithio at ddibenion busnes** Byddwn ni’n lleihau'r allyriadau o'r teithio y mae staff a chynghorwyr yn ei wneud wrth gyflawni eu swydd.

Bydd y ffynonellau amsugno carbon canlynol yn cyfrif tuag at ein nod carbon sero:

**Glaswelltir** Byddwn ni’n cynnal y glaswelltir y mae'r Cyngor yn berchen arno a’r hyn mae’n ei weithredu.

**Coedwigoedd / coetir** Byddwn ni’n cynyddu faint o goedwigoedd a choetir y mae'r Cyngor yn eu cynnal ac yn berchen arnynt.

### Y Gadwyn Gyflenwi

Yn ogystal â hyn, ein nod yw lleihau cyfanswm y carbon sy’n cael ei allyrru o gadwyn gyflenwi’r Cyngor 35%[7] erbyn 31 Mawrth 2030.

**Cadwyn gyflenwi** Byddwn ni’n lleihau allyriadau o'r holl nwyddau a’r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu prynu gan eraill.

## Beth yw ein man cychwyn?

### Carbon Sero Net

Cyfanswm yr allyriadau carbon o ôl-troed Carbon Sero Net Cyngor Sir Ddinbych ar y waelodlin yn 2019/2020 oedd 16,448 tCO2e.[8]

[7] O’i gymharu â gwaelodlin 2019/20

[8] Mae tCO2e yn dalfyriad ar gyfer ‘tunnell o garbon deuocsid a’i gyfatebol’ a ddefnyddir i ddisgrifio nwyon tŷ gwydr gwahanol mewn uned gyffredin - carbon.

Cyfanswm y carbon a amsugnir gan dir y mae Cyngor Sir Ddinbych yn berchen arno ac yn ei weithredu ar ein gwaelodlin yn 2019/2020 oedd 2,418 tCO2e.

Felly, safle Carbon Sero Net y Cyngor yn 2019/20 oedd +14,030 [9]tCO2e.

Y nod yw gostwng y ffigwr 14,030 tCO2e i sero erbyn 31 Mawrth 2030.

Ar adeg yr adolygiad 3 blynedd hwn, mae'r ffigwr net hwnnw yn 12,062 tCO2e. Mae'r ffigwr hwn yn seiliedig ar ffigurau adrodd diweddaraf y Cyngor, yn 2022/2023, ar ôl cyflawni 1,358 tCO2e o ostyngiad mewn allyriadau carbon a chynnydd o 610 tCO2e mewn amsugniadau carbon drwy ein gweithredoedd hyd yma, ers gwaelodlin 2019/2020.


Mae'r tablau a'r graffiau isod yn disgrifio ffynonellau allyrru ac amsugno carbon y Cyngor yn 2019/20 o gymharu â 2022/23.

**Tabl 1: Allyriadau carbon fesul ffynhonnell**


| Ffynhonnell allyriadau carbon | Swm y carbon y cafodd ei allyrru yn 2019/20 mewn tCO2e | % o'r cyfanswm yn 2019/20 | Swm y carbon y cafodd ei allyrru yn 2022/23 mewn tCO2e | % o'r cyfanswm yn 2022/23 |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Adeiladau | 10,151 | 62 | 9,082 | 60 |
| Fflyd | 2,693 | 16 | 2,302 | 15 |
| Staff sy'n Cymudo | 1,848 | 11 | 2,860 | 19 |
| Goleuadau Stryd | 788 | 5 | 419 | 3 |
| Teithio ar gyfer Busnes | 550 | 3 | 251 | 2 |
| Gwastraff | 418 | 3 | 177 | 1 |
| **Cyfanswm** | **16,448** | **100** | **15,091** | **100** |

[9] Cyfrifir hyn drwy dynnu'r carbon sy'n cael ei amseugno o'r carbon sy'n cael ei allyrru, h.y. tynnu 2,418 o 16,448.

**Siart 1: Ôl Troed Carbon Sero Net Cyngor Sir Ddinbych yn 2019/20**




**Siart 2: Ôl Troed Carbon Sero Net Cyngor Sir Ddinbych yn 2022/23**





**Tabl 2: Amsugno carbon fesul ffynhonnell**

| Ffynhonnell amsugno carbon | Swm y carbon y cafodd ei amsugno yn 2019/20 mewn tCO2e | % o'r cyfanswm | Swm y carbon y cafodd ei amsugno yn 2022/23 mewn tCO2e | % o'r cyfanswm yn 2022/23 |
|---|---|---|---|---|
| Glaswelltir | 1,564 | 65 | 1,306 | 43 |
| Coedwigoedd / Coetir | 854 | 35 | 1,722 | 57 |
| **Cyfanswm** | **2,418** | **100** | **3,028** | **100** |

**Siart 3: Amsugnad Carbon Cyngor Sir Ddinbych yn 2019/20**




**Siart 4: Amsugnad Carbon Cyngor Sir Ddinbych yn 2022/23**



## Y Gadwyn Gyflenwi

Yn ogystal â hyn, amcangyfrifir bod y Cyngor wedi allyrru 25,125[10] o dunelli o CO2e o'i gadwyn gyflenwi yn 2019/2020.

Yn 2022/2023 amcangyfrifir bod y Cyngor wedi allyrru 36,912 o dunelli o CO2e o'i gadwyn gyflenwi.

---

[10] Mae'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo allyriadau ein cadwyn gyflenwi yn fwy cynhwysol o'n gwariant o gymharu â'r dull a ddefnyddiwyd yn 2020/21 yng nghyhoeddiad cyntaf y strategaeth.  Fodd bynnag, mae cywirdeb y fethodoleg hon broblem o hyd.

## Ble rydym ni eisiau cyrraedd?

### Carbon Sero Net

I gyflawni ein nod Carbon Sero Net, mae angen i'r Cyngor leihau faint o garbon y mae'n ei ryddhau a chynyddu faint o garbon y mae'n ei amsugno.

Mae’r tabl isod yn dangos targed 2030 ar gyfer y gostyngiad ym mhob un o’r ffynonellau allyriadau carbon o gymharu â 2019/20 (ein blwyddyn waelodlin) a’r cynnydd hyd yma ers ein cyfnod adrodd diweddaraf yn 2022/23. Mae hefyd yn dangos y gostyngiad mewn allyriadau carbon y mae angen ei gyflawni o hyd i gyrraedd ein targed.

Mae'r graffiau isod yn dangos ein cynnydd o ran lleihau carbon net (sy'n cynnwys ein hallyriadau carbon blynyddol namyn y carbon yr ydym ni’n ei amsugno). Maen nhw hefyd yn dangos y newid ym mhob ffynhonnell allyriadau carbon gan gymharu’r cyfansymiau yn 2019/20 â’r cyfansymiau yn 2029/30, os bydd y Cyngor yn llwyddo i gyflawni ei dargedau, ynghyd â’r cynnydd hyd yma yn 2022/23.


Mae ymyrraeth uniongyrchol y Cyngor yn parhau i chwarae rhan allweddol er mwyn darparu’r gostyngiad carbon hwn. Rydym wedi ac yn parhau i gyfuno ein hymdrechion â’r cynnydd cenedlaethol i ddatgarboneiddio rhwydweithiau tanwydd ac ynni. Rydym ni wedi, a byddwn ni’n parhau i ymateb i gyfleoedd newydd a allai godi rhwng nawr a 2030 sy’n ein galluogi ni i fynd gam ymhellach i leihau ein hallyriadau carbon[11].

[11] Er enghraifft, cyflwyno technoleg neu ddatblygiad sylweddol newydd fel ffyrdd o gynhyrchu ynni.


**Tabl 3: Targed gostwng erbyn 2030 fesul ffynhonnell allyrru carbon, allyriadau gwirioneddol ym mlwyddyn 3 (2022/23), newid canrannol yn 2022/23 o'i gymharu â'r waelodlin a'r allyriadau i'w gostwng i fodloni targed 2030 (2023/24 - 2029/30)**

| Ffynhonnell allyriadau carbon | % y targedau gostwng o gymharu â 2019/20 | Allyriadau amcanestynedig yn 2029/30 mewn tCO2e os cyrhaeddir y targed | Allyriadau gwirioneddol ym Mlwyddyn 3 (2022/23) mewn tCO2e | Allyriadau gwirioneddol yn y flwyddyn waelodlin (2019/20) mewn tCO2e | Newid o ran y % yn 2022/23 o gymharu â'r waelodlin | Allyriadau sydd angen eu gostwng mewn tCO2e i gyrraedd y targed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Adeiladau | -60% | 4,060 | 9,082 | 10,151 | -11% | 5,022 |
| Fflyd | -60% | 1,077 | 2,302 | 2,693 | -15% | 1,225 |
| Cymudo | -20% | 1,478 | 2,860 | 1,848 | +55% | 1,382 |
| Goleuadau Stryd | -50% | 394 | 419 | 788 | -47% | 25 |
| Teithio ar gyfer Busnes | -80% | 110 | 251 | 550 | -54% | 141 |
| Gwastraff | -50% | 209 | 177 | 418 | -58% | Amh |
| **Cyfanswm** | **Amh** | **7,329** | **15,091** | **16,448** | **Amh** | **7,795** |

**Siart 5: Cynnydd Blynyddol Carbon Sero Net Sir Ddinbych hyd at 2022/23**



**Siart 6: Swm y carbon y cafodd ei allyrru gan y Cyngor yn 2019/20 o gymharu â'r allyriadau amcanestynedig ar gyfer 2029/30 a'r cynnydd hyd yma yn 2022/23**



Mae sawl maes y mae’r Cyngor yn rhagori ar ei darged blynyddol o ran gostwng allyriadau carbon ar gyfer y ffynhonnell honno, er enghraifft, goleuadau stryd, gwastraff a chymudo at ddibenion busnes. Fodd bynnag, mae meysydd eraill lle nad yw gostyngiadau’n cael eu cyflawni ar y raddfa ofynnol ac, am sawl rheswm, mae’n annhebygol y bydd y targed yn cael ei gyflawni erbyn 2030. Mae’r meysydd hyn yn cynnwys adeiladau a storio carbon. Mae meysydd eraill sy’n ymofyn dadansoddi pellach yn cynnwys cymudo staff, sydd ar hyn o bryd yn seiliedig ar ddata amcangyfrifedig.

Ar gyfer y meysydd hynny lle mae’r targed wedi profi i fod yn heriol iawn, darperir rhagor o wybodaeth yn Atodiad Technegol 1 i egluro’r bwlch a ragwelir rhwng y llwybrau hysbys ac wedi’u targedu a’r rhesymau dros y bwlch disgwyliedig hwn.

Mae neges o’r dyfodol wedi’i chynnwys isod fel ffordd o ddod â’r ffigurau hyn yn fyw drwy adrodd straeon – gan roi enghraifft o sut y gallai’r Cyngor fod wedi mynd ati i gyflawni ei dargedau ar gyfer 2030.

**Neges 1: Lleihau allyriadau carbon**

Delwedd ar thema newid hinsawdd gan Jaxon o Ysgol Henllan, enillydd cystadleuaeth Cerdyn Post o'r Dyfodol.



**Neges o'r dyfodol:**

**Annwyl Gyngor 2020, Blwyddyn 2030 sydd yma! Wel mae'r siwrnai i gyflawni Cyngor Carbon Sero Net wedi bod yn heriol, ond yn llwyddiannus! Nid wyf eisiau difetha unrhyw beth i chi, ond dyma rai o'r prif bwyntiau ar sut yr ydych chi wedi lleihau eich carbon…**

Yn adeiladau'r Cyngor mae'r defnydd o ynni ar gyfer gwresogi, unrhyw beth sy'n defnyddio trydan, a'r defnydd o ddŵr wedi gostwng trwy gynyddu tyndra aer yr adeilad ac effeithlonrwydd y systemau a'r offer sydd ynddynt. Mae holl adeiladau newydd y Cyngor sy'n cael eu hadeiladu yn rhai carbon isel. Mae cynhyrchu trydan adnewyddadwy ar y safle wedi cynyddu. Mae systemau gwresogi mwy o safleoedd wedi'u trosi'n ddewisiadau carbon isel ac adnewyddadwy. Mae casglu dŵr glaw yn cael ei ddefnyddio'n ehangach ar gyfer y dŵr sy'n cael ei ddefnyddio yn adeiladau'r Cyngor.

Mae teithiau gormodol gan gerbydau Fflyd y Cyngor wedi'u hosgoi fwy a mwy gan fod y gwasanaethau a ddarperir hyd yn oed yn fwy hygyrch ac effeithlon. Bu cynnydd mawr yn nifer y cerbydau trydan y mae'r Cyngor yn berchen arnynt ac mae pwyntiau gwefru cerbydau trydan wedi'u gosod ar draws adeiladau a meysydd parcio'r Cyngor. Mae dewisiadau allyriadau isel iawn ar gyfer ein cerbydau fflyd mwy, megis lorïau gwastraff a graeanu wedi'u treialu.

Mae ein cyfraddau ailgylchu wedi mynd o nerth i nerth ac mae llai o halogiad bellach gan fod gwastraff yn cael ei wahanu. Mae pwyslais ar atal gwastraff yn y Sir wedi lleihau nifer y tunelli cyffredinol o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu a'i gasglu gan y Cyngor wrth i fwy o eitemau gael eu defnyddio a'u hailddefnyddio a fyddai wedi cael eu gwaredu o'r blaen.

Mae gweithio o gartref yn ddewis rhwydd i staff sy'n gallu gwneud hynny bellach, ac mae swyddfa ystâd y Cyngor wedi'i gwneud yn effeithlon. Pan fydd staff yn dod i'r swyddfa, byddan nhw'n dod i'r swyddfa sydd agosaf at eu cartref sy'n lleihau milltiredd ac yn cynyddu nifer y staff sy'n cerdded, yn beicio (teithio llesol) neu'n dal y bws i'r gwaith. Mae teithio i gyfarfodydd yn brin iawn erbyn hyn gan fod cyfarfodydd dros y we wedi dod yn drefn arferol. Pan fydd swyddogion yn cyfarfod, bydd y cyfarfod yn aml yn agosach at eu cartrefi ac nid o reidrwydd ym mhrif swyddfa'r Cyngor. Mae swyddogion sy'n gorfod teithio i wneud eu gwaith yn defnyddio cerbydau trydan.


Mae'r tabl isod yn disgrifio faint yr ydym ni'n bwriadu cynyddu'r swm o garbon sy'n cael ei amsugno ar gyfer pob ffynhonnell sy'n amsugno carbon erbyn 31 Mawrth 2030. Mae hefyd yn dangos y cynnydd a wnaed fesul ffynhonnell amsugno carbon hyd yma, yn 2022/23, ac o'i gymharu â'r data gwaelodlin a gasglwyd yn 2019/20. Mae'r cyfanswm sy'n ofynnol i fodloni ein targed hefyd wedi'i nodi. Hefyd, mae'r graffiau'n dangos y cynnydd hyd yma yn erbyn ein targedau blynyddol a 2030.

Bydd ymyrraeth uniongyrchol gan y Cyngor yn chwarae rhan ganolog er mwyn cyflawni'r cynnydd hwn mewn amsugnad carbon yn ogystal â chael gwell dealltwriaeth o allu rhai o'n tirweddau mwy sefydledig i amsugno carbon, er enghraifft ein coetir a'n glaswelltir sy'n gyfoethog o ran bioamrywiaeth.


**Tabl 4: Cynyddu'r targed erbyn 2030 fesul ffynhonnell amsugno data, cynnydd hyd yma a'r carbon sydd ar ôl i'w amsugno (2023/34 – 2029/30)**

| **Ffynhonnell amsugno carbon** | **% y targedau cynnydd o gymharu â 2019/20** | **Amsugnad amcanestynedig yn 2029/30 mewn tCO2e os cyrhaeddir y targed** | **Amsugnad gwirioneddol ym Mlwyddyn 3** (2022/23) mewn tCO2e | **Amsugnad gwirioneddol yn y flwyddyn waelodlin** (2019/20) mewn tCO2e | **Newid o ran y % yn 2022/23 o gymharu â'r waelodlin** | **Yr amsugnad carbon mewn tCO2e sy'n dal yn ofynnol i fodloni'r targed** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Glaswelltir** | 0% | Wedi'i gadw neu lai | 1,306 | 1,564 | -17% | 0 |
| **Coedwigoedd / Coetir** | +575% | 5,765 | 1,722 | 854 | +102% | 4,301 |
| **Cyfanswm** | **Amherthnasol** | **7,329** | **3,028** | **2,418** | | **4,301** |

**Siart 7: Faint o garbon y cafodd ei amsugno gan y Cyngor yn 2019/20 o gymharu â'r amsugnad a ragwelir yn 2029/30  a'r cynnydd hyd yma yn 2022/23**



**Siart 8: Cynnydd Amsugno Carbon Blynyddol Sir Ddinbych o goetir hyd at 2022/23 (addasu aeddfedrwydd) a thargedau blynyddol**




Mae sawl maes y mae'r Cyngor yn rhagori ar ei darged blynyddol o ran gostwng allyriadau carbon ar gyfer y ffynhonnell honno, er enghraifft, goleuadau stryd, gwastraff a chymudo at ddibenion busnes. Mae storio carbon yn faes lle nad yw'r cynnydd yn digwydd ar y raddfa ofynnol ac, am nifer o resymau, nid yw'n debygol y byddwn yn cyflawni'r targed erbyn 2030. Darperir rhagor o wybodaeth yn Atodiad Technegol 1 i egluro'r bwlch a ragwelir rhwng y llwybrau hysbys ac wedi'u targedu a'r rhesymau dros y bwlch disgwyliedig hwn.

Mae neges o'r dyfodol wedi'i chynnwys fel ffordd o ddod â'r ffigurau hyn yn fyw drwy adrodd straeon – gan roi enghraifft o sut y gallai'r Cyngor fod wedi mynd ati i gyflawni ei dargedau ar gyfer 2030.

**Neges 2: Cynyddu amsugnad carbon**

Delwedd ar thema newid hinsawdd gan enillydd cystadleuaeth Cerdyn Post o’r Dyfodol, Macey, 14 oed o Ysgol Arbennig Tir Morfa.



**Neges o'r dyfodol:**

**Annwyl Gyngor 2020, Blwyddyn 2030 sydd yma! Wel mae'r siwrnai i gyflawni Cyngor Carbon Sero Net wedi bod yn heriol, ond yn llwyddiannus!  Nid wyf eisiau difetha unrhyw beth i chi, ond dyma rai o'r prif bwyntiau ar sut yr ydych chi wedi cynyddu'r carbon sy'n cael ei amsugno…**

Mae'r Cyngor wedi cynnal y glaswelltir y mae'n berchen arno *gymaint â phosibl*, gan ddiogelu buddion amsugno carbon a chyflawni prosiectau i wella cyfoeth rhywogaethau ei gynefinoedd glaswelltir er budd bioamrywiaeth.

Mae'r Cyngor wedi ymdrechu'n galed i gynyddu faint o goedwigoedd a choetioedd mae'n berchen arnynt ac yn eu cynnal. Dros y naw mlynedd ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi trosi tir presennol ac wedi prynu tir newydd i ddatblygu sinciau carbon a noddfeydd bywyd gwyllt trwy blannu coed a ddewiswyd yn ofalus, yn cynnwys glaswelltir sy'n llawn rhywogaethau.

Gwnaeth y gweithgaredd hwn sicrhau buddion ychwanegol i'r Cyngor a'i gymunedau gan gynnwys plannu coed ar dir uchel oddi ar dalgylchoedd afonydd i leihau'r perygl o lifogydd a manteisio ar y cyfleoedd i agor y mannau hyn i'r cyhoedd ar gyfer hamdden, twristiaeth a gwella lles.

Os bydd Cyngor yn cyflawni ei dargedau yn llwyddiannus fel yr amlinellir yn y tablau uchod, yn 2029/30, bydd cyfanswm allyriadau carbon y Cyngor namyn cyfanswm y carbon y mae'r Cyngor yn ei amsugno yn hafal i sero. Bydd y Cyngor wedi cyflawni ei uchelgais i ddod yn garbon sero net.

## Y Gadwyn Gyflenwi


Mae'r Cyngor hefyd yn anelu at leihau'r carbon sy’n cael ei allyrru o'n cadwyn gyflenwi o 35%. Byddwn ni’n gweithio gyda chwmnïau a busnesau yr ydym ni’n prynu ein nwyddau a gwasanaethau ganddynt i leihau dwyster carbon yr hyn yr ydym ni’n ei brynu a sut yr ydym ni’n darparu gwasanaethau a hefyd i fanteisio ar fudd cymunedol lleol y gallwn ei gynhyrchu o'r contractau hynny.

Mae’r tabl isod yn disgrifio faint yr ydym ni’n bwriadu gostwng swm y carbon sy’n cael ei allyrru o gadwyn gyflenwi'r Cyngor erbyn 31 Mawrth 2030. Mae hefyd yn dangos y cynnydd a wnaed hyd yma, yn 2022/23, ac o’i gymharu â’r data gwaelodlin a gasglwyd yn 2019/20. Mae cyfanswm y carbon y mae angen ei leihau i fodloni ein targed hefyd wedi’i nodi.

**Tabl 5: Targed ar gyfer gostwng allyriadau carbon o’n cadwyn gyflenwi, y cynnydd hyd yma a’r carbon sydd ar ôl i’w amsugno** (2023/34 – 2029/30)

| Ffynhonnell allyriadau carbon | % y targedau gostwng o gymharu â 2019/20 | Allyriadau amcanestynedig yn 2029/30 mewn tCO2e os cyrhaeddir y targed | Allyriadau gwirioneddol ym Mlwyddyn 3 (2022/23) mewn tCO2e | Allyriadau gwirioneddol yn y flwyddyn waelodlin (2019/20) mewn tCO2e | Newid yn y % yn 2022/23 o gymharu â’r waelodlin | Yr allyriadau carbon mewn tCO2e sy’n dal yn ofynnol i fodloni’r targed |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y Gadwyn Gyflenwi** | -35% | 16,331 | 36,912 | 25,125 | +47% | 20,581 |

**Siart 9: Swm yr allyriadau carbon o gadwyni cyflenwi yn 2019/20 o'i gymharu â'r hyn a ragwelir ar gyfer 2029/30 a'r cynnydd hyd yma yn 2022/23**




Mae'r graff uchod hefyd yn cymharu ein cynnydd hyd yma yn erbyn ein targed ar gyfer 2030 ac mae'n dangos bod allyriadau carbon o'r gadwyn gyflenwi wedi cynyddu o gymharu â'n gwaelodlin. Ceir rhagor o fanylion am y gwariant y tu ôl i'r cyfansymiau hyn yn Atodiad 7.

Mae'r fethodoleg bresennol i bennu allyriadau o'n cadwyn gyflenwi'n seiliedig ar luosi ffactor allyriadau sefydlog[12], a neilltuwyd i bob gweithgaredd neu'r math o gynnyrch a brynir, â chyfanswm y gwariant ar y math hwnnw o bryniant. Gan fod hyn yn cael ei gyfrifo ar sail gwariant ar hyn o bryd, mae hynny'n golygu y bydd unrhyw gynnydd ym mhrisiau nwyddau a gwasanaethau yn arwain at gynnydd mewn carbon hefyd, hyd yn oed os yw'r gwariant hwnnw ar eitemau sy'n allyrru llai o garbon ond a allai fod â chost ymlaen llaw

[12] Mae'r ffactor allyriadau yn cymhwyso'r gyfradd allyriadau y mae gweithgaredd neu gynnyrch penodol yn rhyddhau carbon i'r atmosffer.

uwch, fel Cerbydau Trydan. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd cyfrifo a monitro gostyngiadau mewn allyriadau o'r gadwyn gyflenwi. Er bod ein llwybr presennol yn dangos cynnydd mewn allyriadau carbon, mae'n anodd gwybod p'un a yw hyn o ganlyniad i gynnydd gwirioneddol mewn allyriadau neu gynnydd yng nghostau'r eitemau, er enghraifft, o ganlyniad i chwyddiant neu brisiau uwch ar gyfer opsiynau amgen carbon isel.

Mae angen dadansoddiad ychwanegol i sicrhau ein bod ni'n targedu camau gweithredu mewn meysydd y mae ein gwariant yn y gadwyn gyflenwi ar ei uchaf. Rydym ni hefyd yn cymryd camau i leihau allyriadau o'n cadwyn gyflenwi, er enghraifft, drwy werthuso tendrau ar eu perfformiad carbon.  Fodd bynnag, bydd yn rhaid cyfrifo allyriadau'n well er mwyn sicrhau unrhyw newid sylweddol mewn perfformiad.

**Neges 3: Gostwng allyriadau carbon o’r gadwyn gyflenwi**

Delwedd ar thema’r hinsawdd ac adfer byd natur gan enillydd cystadleuaeth Cerdyn Post o'r Dyfodol, Eleanor, 6 oed o Ysgol Caer Drewyn.



Mae neges o’r dyfodol wedi’i chynnwys fel ffordd o ddod â’r ffigurau hyn yn fyw drwy adrodd straeon – gan roi enghraifft o sut y gallai’r Cyngor fod wedi mynd ati i gyflawni ei darged ar gyfer 2030.

**Neges o'r dyfodol:**

**Annwyl Gyngor 2020, Blwyddyn 2030 sydd yma! Nid wyf eisiau difetha unrhyw beth i chi, ond dyma rai o'r prif bwyntiau ar sut yr ydych chi wedi lleihau eich allyriadau carbon o'r gadwyn gyflenwi…**

Mae'r Cyngor wedi lleihau ei wariant lle bynnag y bo modd, yn arbennig o ran papur, gan fod y Cyngor, yn 2030, bellach yn ddi-bapur. Ar ôl cyflwyno dull caffael oes gyfan yn gynnar yn y rhaglen, mae'r Cyngor wedi gweld mwy o bobl yn prynu eitemau o ansawdd uwch yn llai aml.

Rydym ni wedi gweld bod adeiladu wedi mynd yn llawer llai dwys o ran carbon wrth arwain at 2030 ac mae'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru wedi helpu gyda hyn trwy egluro'n glir wrth gyflenwyr ei bod yn bwysig iawn cyflawni prosiectau adeiladu newydd carbon isel.

Nid oes angen dweud yn awr y ceisir gwerth ychwanegol o bob contract y Cyngor sydd dros £25,000. Gan weithio gyda'n cymunedau, gyda'n gilydd yr ydym ni wedi nodi'r buddion amgylcheddol y mae prosiectau budd cymunedol sy'n cael eu darparu gan/gyda chyflenwyr er budd lleihau carbon, amsugno carbon a gwella bioamrywiaeth,

## Pa newidiadau a chamau gweithredu fydd yn ein helpu ni i gyrraedd yno?

### Newidiadau i brosesau a pholisïau'r Cyngor

Er mwyn cyflawni ein nod carbon sero net erbyn 2030 bydd angen i'r Cyngor addasu sut mae'n mynd ati i gyflawni'r amrywiaeth eang o waith a thasgau sy'n ofynnol gennym ni gan Lywodraeth Cymru, ein partneriaid a'n cymunedau.

Yn y fersiwn Ddiwygiedig Blwyddyn 3 hon o'r strategaeth, rydym ni wedi datblygu, adolygu ac adfywio dros 100 o awgrymiadau ar gyfer newidiadau polisi a phrosesau a nodwyd yn 2020 ac adolygiad 2024 i gyfrannu at leihau allyriadau carbon a chynyddu amsugnad

carbon.  Ein nod yw gweithredu cymaint o’r rhain â phosibl dros y 6 blynedd sy’n weddill o’r strategaeth.

Mae Atodiad 2 yn yr Atodiadau Technegol yn darparu gwybodaeth ar y newidiadau polisi a phrosesau sydd wedi’u rhestru yn y strategaeth a fabwysiadwyd yn 2021 sydd wedi cael eu cwblhau.

Mae’r rhestr isod yn amlygu rhai o’r newidiadau blaenoriaethol i brosesau a pholisïau’r Cyngor yr ydym yn gobeithio eu rhoi ar waith ym Mlwyddyn 4 - 6 (2024/25 - 2026/27) o ddarparu’r strategaeth hon i gefnogi’r Cyngor i gyflawni ei nod sero carbon net erbyn 2030.

Mae hon yn rhestr ddeinamig a hyblyg;  mae’n bosibl y byddwn yn gweithredu rhai pethau eraill nad ydynt yn y graffig isod, wrth i ni ymateb i’r cyfleoedd newydd.

- Parhau i weithredu’r polisi newid cerbydau am rai trydan
- Cefnogi’r Cyngor i gydymffurfio â’r ddeddfwriaeth: cydgrynhoi a chynyddu ailgylchu ym mhob un o ysgolion ac adeiladau’r Cyngor
- Sicrhau bod gostyngiad carbon yn cael ei ystyried yn briodol mewn dogfennau Polisi a Strategaeth - Caffael y Cyngor, templedi Comisiynu, gwerthusiadau tendro. Cynnwys cyflwyno pwysoliadau i gwestiynau lleihau carbon safonol
- Nodi swyddogion y Cyngor sy’n caffael yn rheolaidd i dargedu cyfathrebu a hyfforddiant ar y rhaglen Newid Hinsawdd ac Ecolegol a chyfraniad caffael sy’n gyfrifol yn amgylcheddol.
- Ymgysylltu â busnesau lleol i gynyddu dealltwriaeth mewn perthynas â Datgarboneiddio a gweithio gyda nhw i sicrhau fod canlyniadau datgarboneiddio’n cael eu cyflawni.
- Diweddaru ac adeiladu ar y wefan newid hinsawdd ac ecolegol a thudalennau Linc (e.e. cynnwys data perfformiad)
- Ymchwilio i syniadau cerdyn Vector i ddarparu cyfleoedd carbon isel ac adfer natur i staff e.e. gostyngiadau llogi ceir trydan
- Alinio’r polisi AD gyda’r rhaglen newid hinsawdd ac ecolegol wrth adolygu
- Datblygu tystebau ac astudiaethau achos i gynyddu dealltwriaeth a hyder am arferion carbon isel a gwelliannau ecolegol gyda chontractwyr a chyflenwyr

- Datblygu llwybr dysgu i gyflenwyr a phartneriaid mewnol i gasglu profiadau a barn gan fusnesau mawr a bach, a rhannu arferion gorau ar draws Cymru (er mwyn gwella’r broses gasglu data hefyd)
- Cynnwys Dangosyddion Perfformiad Allweddol mewn contractau i fonitro gostyngiadau carbon drwy gydol bywyd y contractau
- Peilota ac addasu Cyfrifiannell Carbon i gasglu data allyriadau carbon gan gyflenwyr Haen 1 i ddarparu ein contractau
- Gwneud cais am Gynlluniau Gostwng Carbon fel rhan o’r holiadur cyn cymhwyso (HCC) ar bob tendr sy’n uwch na £XX (bydd yn rhaid cytuno ar y gwerth ond mae’n hanfodol ar gyfer contractau dros £5 miliwn)
- Sicrhau fod gan unrhyw Fframweithiau Allanol a ddefnyddir ar gyfer caffaeliadau ofynion cadarn o ran Cynaliadwyedd a Lleihau Carbon
- Sicrhau rheolaeth contractau da er mwyn monitro, casglu ac adrodd ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Carbon
- Ymchwilio i a mabwysiadu platfform canolog ar gyfer casglu/cofnodi dangosyddion perfformiad allweddol Carbon o bob contract ar draws yr Awdurdod Lleol
- Strategaeth Wres i Gymru - sicrhau bod pob adeilad cyhoeddus yn cael eu gwresogi â gwres carbon isel erbyn 2030 o fewn y cyllid sydd ar gael a lle bo costau ynni’n caniatáu
- Adnewyddu ac adolygu’r Strategaeth Ddigidol i alinio â’r rhaglen newid hinsawdd ac ecolegol
- Adnewyddu’r Strategaeth Rheoli Asedau i alinio â’r rhaglen newid hinsawdd ac ecolegol
- Adolygu’r broses fewnol i ymchwilio i’r ffordd orau i gofnodi a chyfathrebu gostyngiadau carbon a chyfraniadau ecolegol gadarnhaol mewn prosiectau ar y cam dechrau, gan gynnwys adolygu sut cafodd cyfraniadau eu gweithredu gan Brosiectau drwy werthuso mewnol a monitro Adroddiadau Terfynu Prosiectau
- Defnyddio mecanweithiau llywodraethu sydd ar gael, parhau i ymgysylltu â Hamdden Sir Ddinbych ar faterion yn ymwneud â newid hinsawdd, archwilio cyfleoedd ar gyfer mesuryddion perfformiad
- Defnyddio cynlluniau portffolio i sicrhau ein bod yn defnyddio ein hystâd gyfan i alluogi swyddogion i rannu desgiau

- Adolygu Polisi Safle Gwag Cymunedau Dysgu Cynaliadwy i gynnwys yr opsiwn o Gyngor Sir Ddinbych yn cadw'r safle a'i drosi'n goetir/perllan cymunedol
- Cefnogi'r broses o newid cyfansoddiad y Cyngor i ystyried mynd i'r afael â'r newid hinsawdd ac ecolegol drwy ddatblygu a chyflwyno dull a gofyniad ar gyfer cyflwyno cost hyd cyfan
- Sicrhau fod opsiwn sy'n cefnogi'r amgylchedd bob amser yn cael ei gyflwyno mewn achosion busnes wrth benderfynu ar brosiectau cyfalaf sylweddol
- Archwilio dulliau ariannu ar gyfer buddsoddi mewn cynnyrch/cynlluniau ynni adnewyddadwy

## Camau Gweithredu a Phrosiectau

Er mwyn cyflawni'r nod sero carbon net, bydd yn rhaid i'r Cyngor barhau i adeiladu ar raglenni gweithgarwch presennol a ddechreuwyd dan y Rhaglen Newid Hinsawdd ac Ecolegol a'r thema Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd yn ein Cynllun Corfforaethol, yn ogystal â darparu gweithgareddau a phrosiectau newydd.

Yn y fersiwn Ddiwygiedig Blwyddyn 3 hon o'r strategaeth, rydym ni wedi datblygu, adolygu ac adfywio dros 100 o syniadau ar gyfer prosiectau a nodwyd yn 2020 i leihau allyriadau carbon a chynyddu amsugnad carbon. Mae adborth a gafwyd o'n hymgynghoriad ym mis Mai 2024 wedi'i ymgorffori yn y fersiwn ddiwygiedig hon, ynghyd â gwybodaeth a gasglwyd o ffynonellau eraill, fel cardiau sgorio Climate Emergency UK.[13] Ein nod yw gweithredu cymaint o'r rhain â phosibl gyda'r adnoddau sydd ar gael dros y 6 blynedd sy'n weddill o'r strategaeth. Yn ogystal â chamau eraill, mae'n bosibl y byddwn yn ymateb i gyfleoedd newydd.

Mae Atodiad 2 yn yr Atodiadau Technegol yn darparu gwybodaeth ar y prosiectau a'r camau sydd wedi'u rhestru yn y strategaeth a fabwysiadwyd yn 2021 sydd wedi cael eu cwblhau.

---

[13] https://councilclimatescorecards.uk/

Mae'r rhestr isod yn darparu trosolwg o'r camau a'r prosiectau blaenoriaeth a nodwyd hyd yma y mae'r Cyngor yn gobeithio eu cyflawni a fydd yn lleihau allyriadau carbon ac yn cynyddu amsugniad carbon. Mae darpariaeth y prosiectau a'r camau gweithredu hyn a nodwyd yn amodol ar sicrhau'r cyllid angenrheidiol. Mae'r cyfyngiadau ar gyllid Llywodraeth Leol yn sylweddol a bydd hynny'n parhau am flynyddoedd i ddod a fydd yn cael effaith ar bryd a sut y gellid darparu'r prosiectau a'r camau a nodwyd.

**Camau i leihau carbon o adeiladau a goleuadau stryd y Cyngor**

**Blynyddoedd 4 i 9** (2024/25 i 2029/30)

- Parhau â'r rhaglen adnewyddu bolardiau ac arwyddion heb eu goleuo lle bo modd a gosod opsiynau adlewyrchol amgen
- Parhau i chwilio am gyfleoedd cyllid i alluogi TGCh i newid i ddefnyddio system rwydweithio di-wifr er mwyn gallu elwa o weithio hyblyg a sicrhau buddion o ran defnydd ynni
- Parhau i weithio i leihau ôl-troed ynni drwy TGCh ac ymchwilio i ddefnyddio gwres a gynhyrchir drwy weinyddion i leihau'r galw am ynni
- Dylunio adeiladau newydd a gwaith ailwampio sylweddol i fod yn gweithredu mewn modd carbon isel i gyfrannu at y targed o leihau allyriadau carbon i 4060 tCO2e erbyn Mawrth 2030 (gan gynnwys ystyried Tanciau Badau Glanio a gwelliannau bioamrywiol e.e. casglu dŵr glaw, toeau byw brodorol ac ati) a'u gweithredu'n unol â'r polisi CSDd mabwysiedig ar gyfer adeiladau newydd annomestig ac estyniadau/gwaith ailwampio sylweddol (Rhagfyr 2021)
- Rhesymoli nifer yr adeiladau annomestig yn ystâd eiddo'r Cyngor drwy waredu neu drosglwyddo asedau i gyfrannu at y targed o leihau allyriadau carbon i 4060 tCO2e erbyn mis Mawrth 2030.
- Adolygu'r parthau a'r tymereddau isaf presennol ar gyfer yr ystâd swyddfeydd er mwyn gwneud y mwyaf o'r system wresogi i ostwng carbon a lleihau'r ardaloedd a gaiff eu gwresogi heb fod angen
- Defnyddio'r gyllideb sydd ar gael i weithio ar adeiladau er mwyn gwella effeithlonrwydd ynni a chyfrannu at y targed o leihau allyriadau carbon i 7,329 tCO2e erbyn mis Mawrth 2030.

- Ystyried y problemau hirdymor megis gwefru cerbydau trydan ar draws safleoedd fel rhan o'r Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a'r gofyniad i adnewyddu ysgolion / adeiladu ysgolion newydd i fod yn Sero Carbon Net.

**Camau i leihau carbon y Cyngor o gerbydau fflyd, cymudo staff a theithio busnes**

**Blynyddoedd 4 i 6** (2024/25 i 2026/27)

- Cyflwyno datrysiad gwefru cerbydau trydan yng nghartrefi staff sy'n dechrau ac yn gorffen eu diwrnod gartref ond yn defnyddio cerbyd fflyd Cyngor Sir Ddinbych.
- Gosod isadeiledd gwefru cerbydau trydan yn adeiladau'r Cyngor, gan gynnwys swyddfeydd, depos, llyfrgelloedd ac atyniadau twristiaid
- Trosi cerbydau masnachol ysgafn (hyd at 3.5 tunnell) Cyngor Sir Ddinbych i Gerbydau Trydan

**Blynyddoedd 7 i 9** (2027/28 i 2029/30)

- Treialu cerbydau mawr a gaiff eu pweru gan dechnolegau carbon isel ac isel iawn (e.e. Lorïau Biniau)

**Blynyddoedd 4 i 9** (2024/25 i 2029/30)

- Trosi'r mwyafrif o gerbydau mawr Cyngor Sir Ddinbych i opsiynau Allyriadau Isel Iawn
- Ystyried treialu/cyflwyno bysiau allyriadau isel (cerbydau trydan, olew llysiau hydrogenaidd, hydrogen neu hybrid plygio i mewn)
- Ystyried cyfleoedd ar gyfer darparu cerbydau cludiant i'r ysgol carbon isel yn fewnol (mynd i'r afael â'r fflyd yn gyntaf yn hytrach na thendro), lle bo'r gyllideb yn caniatáu hynny
- Parhau trafodaethau gyda'r tîm hinsawdd i ddeall y problemau mae'r gwasanaeth yn eu hwynebu mewn perthynas â theithio a chymudo (a'r allyriadau canlyniadol)
- Ymchwilio i'r posibilrwydd i staff weithio o adeiladau eraill y sector cyhoeddus a/neu agor asedau eraill CSDd at y diben hwn er mwyn lleihau teithio e.e. galluogi pobl i

rannu desgiau mewn llyfrgelloedd ac ati Camau i leihau carbon y Cyngor sy'n gysylltiedig â gwastraff

**Blynyddoedd 4 i 6** (2024/25 i 2026/27)

- Sicrhau cydymffurfiaeth â Chyfreithiau Ailgylchu yn y Gweithle 2024
- Lleihau plastig mewn ysgolion a hyrwyddo ailgylchu mewn perthynas â'r dull Gwastraff Newydd

**Blynyddoedd 4 i 9** (2024/25 i 2029/30)

- Gweithredu dull Ailgylchu a Gwastraff safonol newydd ar draws adeiladau'r Cyngor, ysgolion a safleoedd y Cyngor gan gynnwys darparu ystod eang o opsiynau ailgylchu
- Cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth: cydgrynhoi a chynyddu ailgylchu ym mhob un o ysgolion ac adeiladau'r Cyngor

**Camau i leihau carbon y Cyngor yn y nwyddau a'r gwasanaethau rydym yn eu prynu**

**Blynyddoedd 4 i 6** (2024/25 i 2026/27)

- Ystyried ffyrdd i wella datgarboneiddio o fewn cadwynau cyflenwi yn ogystal â chwblhau adolygiad o Fframwaith Gofal Cartref Gogledd Cymru
- Cyflwyno'r defnydd o Becyn Gwaith Gostwng Carbon CLILC

**Blynyddoedd 4 i 9** (2024/25 i 2029/30)

- Ystyried cynyddu opsiynau bwyd fegan (carbon isel) yng ngwasanaeth arlwyo ysgolion
- Defnyddio Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus / buddion cymunedol / effeithiau Lles yng nghontractau'r Cyngor i leihau carbon a chynyddu amsugniad carbon

- Nodi swyddogion y Cyngor sy'n caffael yn rheolaidd i dargedu cyfathrebu a hyfforddiant ar y rhaglen Newid Hinsawdd ac Ecolegol a chyfraniad caffael sy'n gyfrifol yn amgylcheddol.
- Ymgysylltu â busnesau lleol i gynyddu dealltwriaeth mewn perthynas â Datgarboneiddio a gweithio gyda nhw i sicrhau fod canlyniadau datgarboneiddio'n cael eu cyflawni.
- Datblygu tystebau ac astudiaethau achos i gynyddu dealltwriaeth a hyder am arferion carbon isel a gwelliannau ecolegol gyda chontractwyr a chyflenwyr
- Datblygu llwybr dysgu i gyflenwyr a phartneriaid mewnol i gasglu profiadau a barn gan fusnesau mawr a bach, a rhannu arferion gorau ar draws Cymru (er mwyn gwella'r broses gasglu data hefyd)

**Camau i gynyddu amsugniad carbon y Cyngor**

**Blynyddoedd 4 i 6** (2024/25 i 2026/27)

- Parhau i dyfu a gwneud y mwyaf o Blanhigfa Goed y Sir
- Cynhyrchu Strategaeth Goed a Choetir i CSDd a gweithredu camau'n unol â hynny

**Blynyddoedd 4 i 9** (2024/25 i 2029/30)

- Parhau i weithio gydag ysgolion i nodi tir i blannu coed a chyflwyno blodau gwyllt er mwyn gwella bioamrywiaeth a storio carbon
- Gweithio i greu a monitro cynlluniau rheoli ar gyfer newid hinsawdd CSDd a safleoedd Cefn Gwlad i gynyddu'r gorchudd coetir a bioamrywiaeth lle bo hynny'n briodol, drwy adfywio naturiol a phlannu coed
- Defnyddio'r gyllideb sydd ar gael i gynyddu faint o dir sydd ym mhortffolio eiddo'r Cyngor er mwyn cyfrannu at y targed o gynyddu'r carbon a gaiff ei storio i 7,329 $tCO_2e$ erbyn mis Mawrth 2030 a chynyddu bioamrywiaeth
- Parhau i weithio gydag ysgolion i nodi tir i blannu coed a chyflwyno blodau gwyllt er mwyn gwella bioamrywiaeth a storio carbon
- Camau i hyrwyddo newid mewn ymddygiad o fewn y Cyngor

**Blynyddoedd 4 i 9** (2024/25 i 2029/30)

- Rhannu rhaglen o fentrau ac ymgysylltiad i rannu adnoddau a dysg ar y rhaglen hon gydag ysgolion ar draws y sir ac annog newidiadau cadarnhaol mewn ymddygiad
- Gweithredu rhaglen o fentrau a chodi ymwybyddiaeth staff am y rôl y mae angen iddyn nhw ei chwarae i leihau ein hallyriadau carbon, a sicrhau fod mesurau'n cael eu rhoi ar waith i ysgogi'r newid ymddygiad hanfodol hwn
- Gweithredu ac ymestyn y Grŵp Hyrwyddwyr Hinsawdd mewnol i annog cynrychiolaeth o bob gwasanaeth i helpu i ledaenu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth a rhannu adborth am arferion gorau a gwybodaeth am y rhaglen newid hinsawdd ac ecolegol

# Lleihau Allyriadau Carbon a Chynyddu Amsugnad Carbon ar draws Sir Ddinbych - Defnyddio Ein Dylanwad

## Pam mae hyn yn bwysig?

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am 2 - 5% o allyriadau lleol, ond, yn ôl ymchwil a gwblhawyd gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd[14], gallwn ni ddylanwadu ar oddeutu traean o allyriadau ardal drwy lunio lleoedd ac arweinyddiaeth. Drwy weithio i gyflawni ein nod o fod yn Gyngor Di-garbon Net erbyn 2030, gobeithiwn gael dylanwad cadarnhaol ar leihau carbon a storio carbon ar draws y sir drwy weithio gydag a chefnogi ein trigolion a'n cymunedau i weithredu.

## Beth yw'r man cychwyn?

Cesglir data bob blwyddyn gan Lywodraeth y DU ar allyriadau nwyon tŷ gwydr rhanbarthol ac ardaloedd yr Awdurdodau Lleol. [15]

Mae'r tabl isod yn darparu cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr yn Sir Ddinbych ers gwaelodlin y Strategaeth yn 2019/20. Mae hyn yn cynnwys blwyddyn Covid 2020/21, pryd y bu gostyngiad sylweddol mewn allyriadau.

[14] Yn ôl Sut Gall Awdurdodau Lleol Leihau Allyriadau a Rheoli Risg Hinsawdd, Pwyllgor Newid Hinsawdd (Mai, 2012)
[15] Data o wefan ystadegau cenedlaethol allyriadau nwyon tŷ gwydr rhanbarthol ac awdurdodau lleol y DU, Mehefin 2022

**Tabl 6: Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr ar draws Ardaloedd Sir Ddinbych ers 2019/20** [16]


| Allyriadau tiriogaethol | Blwyddyn | Cyfanswm (kt CO2e) | newid mewn % o'r flwyddyn flaenorol |
|---|---|---|---|
| Sir Ddinbych | 2019 | 748.9 | amh gwaelodlin |
| Sir Ddinbych | 2020 | 690.2 | -7.8% |
| Sir Ddinbych | 2021 | 746.8 | +7.6 % |

Mae'r allyriadau a gasglwyd yn genedlaethol wedi'u grwpio i'r ffynonellau canlynol: gwastraff, diwydiannol, masnachol, sector cyhoeddus, amaethyddiaeth, domestig a chludiant.


Mae'r siartiau isod yn dangos ôl troed carbon Sir Ddinbych yn 2019/20 a 2021/22 fel siart cylch.

[16] Dyma gyfanswm yr allyriadau o'r categorïau canlynol:  Diwydiant, Masnachol, Sector Cyhoeddus, Domestig, Cludiant, Amaethyddiaeth a Gwastraff

**Siart 10: Ôl-troed Carbon Sir Ddinbych yn 2019/20** (kt CO2e)




**Siart 11: Ôl-troed Carbon Sir Ddinbych yn 2021/22** (kt CO2e)



Mae allyriadau net yn ymwneud â'r tir yn Sir Ddinbych hefyd yn cael eu casglu'n genedlaethol. Mae Tabl 7 isod yn nodi amsugnad carbon net Sir Ddinbych ers blwyddyn waelodlin y Strategaeth 2019/20 o'r sector LULUCF.[17] Mae hyn yn ymwneud ag allyriadau a'r carbon sy'n cael eu hamsugno o weithgareddau defnydd tir, newid defnydd tir a choedwigaeth fel coedwigoedd, glaswelltir, tir âr a thir gwlyb sy'n deillio o weithgarwch pobl. Gan fod hyn yn ymwneud ag amsugno allyriadau carbon, mae cael tunelledd uwch yn beth dda.

**Tabl 7: Allyriadau yn Ymwneud â'r Tir ar Draws yr Ardal (atafaelu) ar gyfer Sir Ddinbych ers 2019/20**

| Allyriadau yn ymwneud â'r tir (amsugnad carbon net) | Blwyddyn | Cyfanswm y tunnelli (CO2e) | newid mewn % o'r flwyddyn flaenorol |
|---|---|---|---|
| Sir Ddinbych | 2019 | -27.1 | amh gwaelodlin |
| Sir Ddinbych | 2020 | -30.9 | -12.3 |
| Sir Ddinbych | 2021 | -32.1 | -3.7 |

## Pa newidiadau a chamau mae'r Cyngor yn eu cymryd i ddefnyddio ein dylanwad i leihau allyriadau carbon a chynyddu amsugniad carbon yn Sir Ddinbych?

### Newidiadau i brosesau a pholisïau'r Cyngor

Yn y fersiwn Ddiwygiedig Blwyddyn 3 hon o'r strategaeth, rydym ni wedi datblygu, adolygu ac adfywio'r awgrymiadau ar gyfer newidiadau polisi a phrosesau a nodwyd yn 2020 ac adolygiad 2024 sy'n cyfrannu at leihau allyriadau carbon a chynyddu amsugnad carbon ar hyd a lled Sir Ddinbych.  Ein nod yw gweithredu cymaint o'r rhain â phosibl gyda'r adnoddau sydd ar gael dros y 6 blynedd sy'n weddill o'r strategaeth.

[17] Dyma gyfanswm y carbon y caiff ei atafaelu o'r categorïau canlynol: Defnydd Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth

Mae Atodiad 3 yn yr Atodiadau Technegol yn cyflwyno gwybodaeth ar y newidiadau polisi a phrosesau a gafodd ddylanwad ehangach yn y Sir a restrwyd yn y strategaeth a fabwysiadwyd yn 2021 ac sydd bellach wedi'u cwblhau.

Mae'r rhestr isod yn amlygu rhai o'r newidiadau blaenoriaethol i brosesau a pholisïau'r Cyngor yr ydym yn gobeithio eu rhoi ar waith ym Mlwyddyn 4 - 6 (2024/25 - 2026/27) o ddarparu'r strategaeth hon i gefnogi'r Cyngor i gyflawni ei nod sero carbon net erbyn 2030.

Mae hon yn rhestr ddeinamig a hyblyg; mae'n bosibl y byddwn yn gweithredu rhai pethau eraill nad ydynt yn y graffig isod, wrth i ni ymateb i'r cyfleoedd newydd.

- Cwblhau dadansoddiad o opsiynau cyllid cyn i'r Grant Ôl-osod ddod i ben yn 2025
- Datblygu a gweithredu Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd newydd ar gyfer Sir Ddinbych.
- Defnyddio polisïau cynllunio o fewn Cynllun Datblygu Lleol 1 a Chanllawiau Cynllunio Atodol presennol y Cyngor sy'n cyfrannu at ddatblygiad amgylcheddol gyfrifol.
- Datblygu'r CDLl newydd i sicrhau bod blaenoriaethau lleol sy'n dod i'r amlwg o ran newid hinsawdd a bioamrywiaeth yn cael eu hadlewyrchu mewn penderfyniadau a pholisïau cynllunio lleol.
- Sicrhau fod gweithwyr ac aelodau'n derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau, deddfwriaeth ac unrhyw ganllawiau newydd e.e canllawiau cynllunio atodol
- Sicrhau fod Swyddogion o'r adran Cludiant i'r Ysgol a theithio llesol ynghlwm â'r broses o Gynllunio Strategol a Rheoli Datblygu drwy ymgynghori â hwy ar bolisïau, dyraniadau tir a chynigion datblygu newydd.
- Ymgysylltu â busnesau lleol i gynyddu dealltwriaeth mewn perthynas â Datgarboneiddio a gweithio gyda nhw i sicrhau fod canlyniadau datgarboneiddio'n cael eu cyflawni.
- Adolygu'r Strategaeth Ystâd Amaethyddol ac archwilio opsiynau i wneud gwelliannau amgylcheddol, adfer natur ac allyriadau di-garbon.
- Cefnogi ysgolion i gynyddu cydymffurfiaeth ag amcanion hinsawdd mewn perthynas â chaffael
- Wrth adolygu'r Polisi Cludo Disgyblion, ystyried gwella cyfleoedd i ddysgwyr gerdded i'r ysgol ac adolygu llwybrau i ysgolion er mwyn galluogi hyn

- Alinio'r Strategaeth Comisiynu Lleoliadau â'r strategaeth ar newid hinsawdd a newid ecolegol wrth ddiweddaru e.e. defnyddio rhagor o ofal maeth lleol lle bo modd

## Camau Gweithredu a Phrosiectau

Yn y fersiwn Ddiwygiedig Blwyddyn 3 hon o'r strategaeth, rydym ni wedi datblygu, adolygu ac adfywio syniadau ar gyfer prosiectau a nodwyd yn 2020 sy'n cefnogi lleihau allyriadau carbon a chynyddu amsugnad carbon ledled Sir Ddinbych.  Ein nod yw gweithredu cymaint o'r rhain â phosibl dros y 6 blynedd sy'n weddill o'r strategaeth.  Mae adborth a gafwyd o'n hymgynghoriad ym mis Mai 2024 wedi'i ymgorffori yn y fersiwn ddiwygiedig hon, ynghyd â gwybodaeth a gasglwyd o ffynonellau eraill, fel cardiau sgorio Climate Emergency UK.[18] Yn ogystal â chamau eraill, mae'n bosibl y byddwn yn ymateb i gyfleoedd newydd.

Mae Atodiad 2 yn yr Atodiadau Technegol yn darparu gwybodaeth ar y prosiectau a'r camau sydd wedi'u rhestru dan 'defnyddio ein dylanwad' yn y strategaeth a fabwysiadwyd yn 2021 sydd wedi cael eu cwblhau.

Mae'r rhestr isod yn darparu trosolwg o'r camau a'r prosiectau blaenoriaeth a nodwyd hyd yma y mae'r Cyngor yn gobeithio eu cyflawni er mwyn cynyddu'r dylanwad y gallwn ei gael i leihau allyriadau carbon a chynyddu amsugniad carbon ar draws Sir Ddinbych.  Mae darpariaeth y prosiectau a'r camau gweithredu hyn a nodwyd yn amodol ar sicrhau'r cyllid angenrheidiol.  Mae'r cyfyngiadau ar gyllid Llywodraeth Leol yn sylweddol a bydd hynny'n parhau am flynyddoedd i ddod a fydd yn cael effaith ar bryd a sut y gellid darparu'r prosiectau a'r camau a nodwyd.

**Blynyddoedd 4 i 6** (2024/25 i 2026/27)

- Darparu'r Orsaf Drosglwyddo Gwastraff Newydd er mwyn gallu gwahanu gwastraff ailgylchu yn well

---

[18] https://councilclimatescorecards.uk/

- Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu gweithgareddau economi gylchol mewn perthynas ag Atgyweirio, Ailgylchu ac Ailddefnyddio er mwyn dargyfeirio eitemau rhag mynd i wastraff.
- Gweithredu gwasanaeth casglu Nwyddau Hylendid Amsugnol ar draws y sir i leihau gwastraff gweddilliol clytiau.
- Sicrhau fod y Cynllun Teithio Llesol newydd o 2021 ymlaen, sy’n mapio llwybrau a chynlluniau presennol ar gyfer darparu llwybrau teithio llesol i’r dyfodol yn y sir, yn alinio ag uchelgeisiau’r Cyngor i fynd i’r afael â’r newid hinsawdd ac ecolegol
- Cyfrannu at a gweithredu’r Cynllun Cludiant Cynaliadwy
- Darparu hyfforddiant Polisi Cynllunio Cymru mewn perthynas â’r Bennod 6 newydd
- Parhau i weithio i ddigideiddio a newid sianeli gwasanaethau’r Cyngor, lle bo modd, drwy weithredu’r system CRM newydd
- Ymchwilio i strategaeth Gwerthu Buddsoddiadau Cronfa Bensiynau Clwyd i’w datgarboneiddio erbyn 2030

**Blynyddoedd 7 i 9** (2027/28 i 2029/30)

- Bydd darparu’r Canllawiau Cynllunio Atodol sy’n deillio o’r Cynllun Datblygu Lleol yn cefnogi’r rhaglen newid hinsawdd a bioamrywiaeth

**Blynyddoedd 4 i 9** (2024/25 i 2029/30)

- Archwilio opsiynau mewn perthynas â gwefru cerbydau trydan ar gyfer Tai Cyngor
- Llunio a gweithredu cynllun i gyflawni sgôr effeithlonrwydd ynni SAP o 75 ar ein stoc dai erbyn 2030 (gan gynnwys adolygu dulliau asesu gwaelodlin presennol a chynhyrchu dadansoddiad o gostau) ynghyd â Llwybr Targed Ynni
- Sicrhau isafswm ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y safle mewn perthynas â datblygiadau adeiladu newydd lle bo modd
- Cydweithio gyda phartneriaid ar draws y sector dai, drwy fentrau megis y Low Carbon Hub a’r Net Zero Group, helpu i gyflawni’r nodau datgarboneiddio
- Gwella a chynyddu buddion drwy gyfleoedd gwirfoddoli a hyfforddi ar gyfer cymunedau a grwpiau ieuenctid e.e. swyddi/sgiliau gwyrdd

- Manteisio ar y cysylltiad gyda Barod (ynghyd â sefydliadau allanol eraill), drwy Sir Ddinbych yn Gweithio, i gynnwys ymgysylltu a gwybodaeth ar y rhaglen newid hinsawdd ac ecolegol
- Parhau i ymestyn y rhwydwaith gwefru cerbydau trydan cyhoeddus wrth i gyfleoedd godi ac wrth i ganllawiau gael eu darparu gan LIC
- Bydd Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLl yn ffynhonnell wybodaeth mewn perthynas â newid hinsawdd a bioamrywiaeth
- Gweithio â'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'r Polisi Cynllunio i sicrhau fod canllawiau clir yn cael eu darparu i ddarpar ddatblygwyr mewn perthynas â lleihau carbon a bioamrywiaeth o fewn datblygiadau  Defnyddio proses ddilysu'r Awdurdod Cynllunio Lleol, lle bo hynny'n rhesymol, i sicrhau cydymffurfiaeth (yn dilyn diweddaru Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru)
- Hyrwyddo a gweinyddu'r cynllun ECO4 drwy CSyFf - effeithlonrwydd ynni mewn anheddau sector preifat
- Parhau i ddarparu strydoedd ysgol ar draws y sir h.y. stryd ysgol y tu allan i ysgol sydd ar gau i gerbydau preifat am gyfnod cyn ac ar ôl amseroedd ysgol
- Gweithio i greu data yn ymwneud â Chynllun Ynni Ardal Leol i gofnodi gosodiadau technoleg carbon isel cyfrannol ar draws y sir
- Parhau i gefnogi aelwydydd sy'n byw yn Sir Ddinbych ac sydd fwyaf tebygol o brofi tlodi tanwydd a'r rhai sy'n agored i effeithiau cartref oer drwy hyrwyddo cynllun tlodi tanwydd Llywodraeth Cymru a gweinyddu meini prawf Sir Ddinbych
- Gweithio gyda thenantiaid amaethyddol y Cyngor i annog rheoli a defnyddio tir er budd storio carbon, gwelliant ecolegol a bioamrywiaeth.  Ystyried cyfleoedd i weithio gyda ffarm tenant i beilota'r dull hwn
- Gweithredu rhaglen o fentrau, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, i godi ymwybyddiaeth ymhlith preswylwyr a busnesau yn Sir Ddinbych am y rôl y gallant ei chwarae i leihau allyriadau carbon.
- Gweithredu isafswm o ran safonau ynni ar gyfer eiddo annomestig rhent (EPC erbyn 2027 ar brydlesau newydd) pan fydd cyfleoedd ariannol yn codi, ac adolygu cyfleoedd i resymoli lle nad yw ôl-osod yn opsiwn hyfyw

- Ystyried gwella prosesau cyfathrebu ac ymgysylltu ag ysgolion mewn perthynas â’r rhaglen newid hinsawdd ac ecolegol e.e. cynnwys materion neu gyfleoedd pwysig yn newyddlenni ysgolion a’r rhaglen ysgolion eco
- Gweithio gyda Hyrwyddwr Llais y Dysgwyr newydd y Cyngor Ieuenctid i archwilio ffyrdd o ymgorffori’r rhaglen hinsawdd ac ecolegol yn eu rôl
- Cefnogi perchnogion tir yn Sir Ddinbych i annog rheoli a defnyddio tir er lles amsugno carbon (e.e. canllawiau ar gyfer diogelu ac adfer mawndiroedd)
- Cefnogi darpariaeth prosiectau dan Raglen Ynni Carbon Isel Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- Cefnogi datblygiad Cynllun Ynni Ardal Leol i Sir Ddinbych a darpariaeth y cynllun hwnnw gan weithio gyda phartneriaid
- Gweithio i greu tudalen i gyfeirio preswylwyr a busnesau at wybodaeth yn ymwneud â’r rhaglen a chyfleoedd grant (gan gynnwys symiau cymudol) mewn perthynas â’r newid hinsawdd a’r rhaglen newid ecolegol

## Cynyddu ein Gwytnwch i Effeithiau Newid Hinsawdd

### Pam mae hyn yn bwysig?

Drwy leihau ein hallyriadau carbon a chynyddu ein hamsugnad carbon, gallwn fynd i’r afael â phrif achosion newid hinsawdd. Fodd bynnag, hyd yn oed pe baem yn gostwng allyriadau’n sylweddol dros y ddegawd nesaf, mae cynhesu pellach yn anochel, ac mae’n rhaid i ni addasu i ymdrin â’r newidiadau hinsawdd yr ydym eisoes yn eu profi a’r newidiadau pellach na ellir eu hosgoi mwyach. Drwy addasu, gellir lleihau’r peryglon sy’n gysylltiedig â newid hinsawdd ac elwa o unrhyw gyfleoedd cysylltiedig lle bo modd. Mae’r gwaith hwn yn bwysig er mwyn cynyddu gwytnwch y Cyngor a’n cymuned i’r effeithiau newid hinsawdd sydd eisoes wedi’u sefydlu.

## Beth yw'r man dechrau?

Cyhoeddwyd Asesiad Annibynnol diweddaraf Llywodraeth y DU o Risg Hinsawdd y DU (CCRA3) yn 2021[19] sy'n cynnwys Crynodeb i Gymru. [20] Mae 61 o risgiau a chyfleoedd i Gymru mewn perthynas â newid hinsawdd sydd wedi'u cynnwys yn yr asesiad hwn, gan gynnwys i fusnesau, isadeiledd, tai, yr amgylchedd naturiol, ein hiechyd a risgiau sy'n gysylltiedig ag effeithiau'r newid hinsawdd yn rhyngwladol. O'r 61 o risgiau a chyfleoedd hyn, nodwyd bod angen cymryd camau pellach yng Nghymru i fynd i'r afael â 32 ohonynt, a dim ond 5 achos a nodwyd fel rhai lle'r oedd parhau a'r camau cyfredol yn briodol. Mae sgôr brys 26 risg sy'n gysylltiedig â'r newid hinsawdd yng Nghymru wedi cynyddu ers yr Asesiad Risg Newid Hinsawdd diwethaf (CCRA2) yn 2016 a dim ond un risg sydd wedi gostwng o ran sgôr brys. Nodwyd rhai risgiau newydd yn CCRA3 hefyd nad oeddent wedi'u cynnwys yn CCRA2.

Yn gryno, roedd risgiau yng Nghymru sydd â sgôr uchel yn ôl yr asesiad ac yn ymofyn rhagor o gamau gweithredu ar unwaith i fynd i'r afael â hwy, ar ôl ystyried unrhyw ymatebion addasu presennol, yn cynnwys y canlynol:

- Effeithiau newid hinsawdd ar yr amgylchedd naturiol, gan gynnwys rhywogaethau morol, arfordirol, dŵr croyw ac ar y tir, coedwigoedd ac amaethyddiaeth.
- Cynnydd yn yr ystod, niferoedd a goblygiadau plâu, pathogenau a rhywogaethau ymledol, sy'n cael effaith negyddol ar rywogaethau cynefinoedd blaenoriaeth morol a dŵr croyw ac ar y tir, coedwigoedd ac amaethyddiaeth.
- Y risg o effeithiau newid hinsawdd, yn arbennig, rhagor o achosion o lifogydd ac erydu arfordirol, gan achosi difrod i'n gwasanaethau isadeiledd, gan gynnwys ynni, cludiant, dŵr a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh).
- Effaith tymereddau eithafol, gwyntoedd cryfion a mellt ar y rhwydwaith cludiant.

---

[19]Mae'n ofynnol i Lywodraeth y DU, dan Ddeddf Newid Hinsawdd 2008, gyhoeddi Asesiad Risg Newid Hinsawdd (CCRA) bob pum mlynedd a gellir dod o hyd i'r ddogfen ddiweddaraf ar wefan y Pwyllgor Newid Hinsawdd
Crynodeb i Gymru (CCRA3-IA), Mehefin 2021

- Effaith tymereddau uchel cynyddol ar iechyd a lles pobl.
- Achosion cynyddol o lifogydd difrifol mewn cartrefi, cymunedau a busnesau.
- Effaith ar fusnesau arfordirol yn sgil cynnydd yn lefel y môr, llifogydd ac erydu arfordirol.
- Amhariad ar ddarpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn sgil achosion cynyddol o dywydd eithafol
- Difrod i'n hasedau treftadaeth ddiwylliannol o ganlyniad i newidiadau mewn tymheredd, glaw, dŵr daear a newidiadau i'r dirwedd.
- Gall newidiadau rhyngwladol gael effaith ar y DU, megis diffyg argaeledd bwyd, diogelwch, risgiau i gyfraith a llywodraethu newid hinsawdd rhyngwladol a fydd yn cael effaith ar y DU, llwybrau masnachu rhyngwladol, iechyd cyhoeddus a'r risgiau cynyddol ar draws systemau a daearyddiaeth.

Mae gwaith wedi dechrau i ddadansoddi'r risg hinsawdd ar draws Sir Ddinbych ac ar gyfer darparu gwasanaethau'r Cyngor yn arbennig. Bydd y gwaith dadansoddol hwn yn ein helpu i gael gwell dealltwriaeth o'r risgiau presennol i'r hinsawdd a'n gwytnwch yn eu herbyn ar draws gwasanaethau'r Cyngor a'r sir.

## Pa newidiadau a chamau mae'r Cyngor yn eu rhoi ar waith i wella gwydnwch yn erbyn risgiau i'r hinsawdd?

Mae hwn yn faes newydd y mae'r Cyngor yn canolbwyntio arno yn fersiwn ddiwygiedig Blwyddyn 3 o'r strategaeth a chyflwynwyd dros 20 o awgrymiadau ar gyfer newidiadau polisi a phrosesau yn ogystal â chamau gweithredu a phrosiectau yn ystod y gweithdai cyhoeddus a gwasanaeth ar sut y gall y Cyngor gefnogi cydnerthedd hinsawdd fel Cyngor ac ar hyd a lled y sir.

Mae hyn hefyd yn ychwanegu at ddulliau yr ymrwymir iddynt dan y thema Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd yng Nghynllun Corfforaethol 2022-2028 a Chynllun Lles Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych ar gyfer addasu i'r hinsawdd a gwytnwch yn erbyn risgiau.

### Newidiadau i brosesau a pholisïau'r Cyngor

- Datblygu a gweithredu Strategaeth Rheoli Risg Llifogydd newydd ar gyfer Sir Ddinbych.
- Adolygu cyfeiriadau i gefnogi cymunedau i nodi prosiectau gwytnwch posibl yn erbyn risgiau i'r hinsawdd a chyllid

### Camau Gweithredu a Phrosiectau

**Blynyddoedd 4 i 6** (2024/25 i 2026/27)

- Adeiladu ar waith ymchwil a gwblhawyd yn 2023/24 mewn perthynas â gwytnwch hinsawdd gofal cymdeithasol er mwyn gwella gwybodaeth a gwneud gwelliannau i wytnwch gwasanaethau
- Parhau i ddarparu'r Prosiect Rheoli Rhostir ac Atal Tanau Gwyllt

**Blynyddoedd 4 i 9** (2024/25 i 2029/30)

- Ymgysylltu â grwpiau cymunedol i ddeall y risg lleol a'r addasiadau sydd eu hangen ar draws y sir
- Cyflawni prosiectau gwella ac ehangu ar gyfer rhandiroedd Cyngor Sir Ddinbych

- Darparu rheolaeth parthau arfordirol ar arfordir naturiol Sir Ddinbych a chwblhau gwaith gan gynnwys: gwaith atgyweirio'r twyni tywod, y Cynllun Môr-wenoliaid Bach a chreu cynefinoedd
- Manteisio ar gyfleoedd sy'n codi i gyfrannu at wneud defnydd gwell o dir ar draws y sir i gyflawni sawl amcan e.e. rheoli risg llifogydd naturiol drwy blannu coed, creu amrywiaeth o gynefinoedd, cyfleoedd addysg mewn perthynas â natur a'r hinsawdd ac ati.
- Cydweithio gyda phartneriaid ar Fforwm Dalgylch Afon Clwyd (prosiect peilot dan Ddatganiad Ardal CNC) sy'n gweithio i wella ansawdd y dŵr, bioamrywiaeth a gwytnwch Afon Clwyd yn erbyn llifogydd
- Gweithio i ddarparu cyfeiriadau at wybodaeth am gefnogaeth i drigolion, disgyblion a staff sy'n dioddef gorbryder mewn perthynas â'r hinsawdd (gallai hyn gynnwys hyfforddiant ar orbryder mewn perthynas â'r hinsawdd i staff allweddol sy'n gweithio gyda phobl ddiamddiffyn)
- Cefnogi cymunedau i nodi prosiectau gwytnwch posibl yn erbyn risgiau i'r hinsawdd a sicrhau cyllid
- Gweithio ochr yn ochr â phartneriaid i gwblhau asesiad risg hinsawdd ar gyfer y sir a chefnogi cymunedau lleol i ddeall gwytnwch yn erbyn risg lleol a'r angen i addasu

## Cyngor Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030

### Beth yw ein nod?

Ein nod yw gwarchod, rheoli ac adfer ein tir yn ogystal â chreu mannau newydd ar gyfer natur fel bod yr ecosystemau[21] yn Sir Ddinbych yn amrywiol, yn fawr o ran maint neu raddfa, mewn cyflwr da, yn cysylltu â'i gilydd a bod ganddynt agweddau ar gydnerthedd ecosystemau i gyd-fynd ag egwyddorion DECCA[22] ac mae hyn yn cynnal bioamrywiaeth yn ogystal â'i wella. Dyma ein nod i fod yn Gyngor Ecolegol Gadarnhaol.

Bydd cyfleoedd ar gyfer gwaith Ecolegol Gadarnhaol sy'n cyfrannu at ein gofynion amsugno carbon yn nod ein Cyngor Carbon Sero Net ac i'r gwrthwyneb yn cael eu cymryd a manteisir arnynt.

### Beth yw ein man cychwyn?

Mae'r data sydd ar gael ynghylch cyfoeth rhywogaethau ledled Sir Ddinbych wedi'i fapio ar dir y mae'r Cyngor yn berchen arno ac yn ei weithredu er mwyn rhoi syniad i ni am ein man cychwyn ar gyfer gwerth bioamrywiaeth y Cyngor.


Mae bioamrywiaeth yn eang, cymhleth ac yn rhyng-gysylltiedig ac felly awgrym yn unig yw unrhyw fesur o werth bioamrywaieth.

Mae'r tabl isod yn rhoi gwybodaeth i chi am y gwahanol fathau o gynefinoedd sydd wedi'u cynnwys yn y mesur cyfoeth rhywogaethau hwn. Rhestrir y cynefin mwyaf cyfoethog o ran rhywogaethau yn gyntaf a rhestrir y cynefin lleiaf cyfoethog o ran rhywogaethau yn olaf.

---

[21] Mae ecosystem yn cynnwys yr holl blanhigion ac anifeiliaid sy'n byw mewn ardal arbennig y mae cysylltiad cymhleth yn bodoli rhyngddyn nhw a'u hamgylchedd.
[22] https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/696279/ecosystem-resilience-in-a-nutshell-1-what-is-ecosystem-resilience.pdf

**Tabl 8: Gwahanol fathau o gynefinoedd**

| Enw'r cynefin | Sgôr cyfoeth o ran rhywogaethau[23] | Llun enghreifftiol |
|---|---|---|
| Glaswelltir Calchaidd – heb ei wella ac wedi'i led-wella | 43.02 |  |
| Coetiroedd Ywen a Llydanddail - Cynefinoedd Cymysg, Rhannol a Rhannol Fynyddig | 20.91 |  |

[23] Mae'r sgôr hon yn cyfeirio at gyfanswm cyfartalog nifer y rhywogaethau o blanhigion fesul plot 200m2 sydd fel arfer yn bresennol yn y math hwnnw o gynefin. Mae dadansoddiad gwyddonol wedi dangos bod amrywiaeth rhywogaethau anifeiliaid yn cynyddu mewn ardaloedd o dir sydd â mwy o amrywiaeth o rywogaethau o blanhigion.


| Enw'r cynefin | Sgôr cyfoeth o ran rhywogaethau[23] | Llun enghreifftiol |
|---|---|---|
| Glaswelltir Niwtral – heb ei wella ac wedi'i led-wella | 20.44 |  |
| Glaswelltir Asidig – heb ei wella ac wedi'i led-wella | 19.58 |  |
| Rhedyn | 19.29 |  |

| Enw'r cynefin | Sgôr cyfoeth o ran rhywogaethau[23] | Llun enghreifftiol |
|---|---|---|
| Craig fewndirol | 16.74 |  |
| Rhosydd Corlwyni | 15.87 |  |
| Llystyfiant Cynefinol Tal | 15.87 |  |

| Enw’r cynefin | Sgôr cyfoeth o ran rhywogaethau[23] | Llun enghreifftiol |
|---|---|---|
| Glaswelltir wedi’i wella | 14.28 |  |
| Coetir Coniferaidd | 14.05 |  |
| Tir âr a garddwriaethol | 10.25 |  |

Mae’r graff isod yn disgrifio faint o dir y mae’r Cyngor yn berchen arno ac yn ei weithredu ym mhob cynefin sy’n amrywio o ran eu cyfoeth o rywogaethau yn 2019/20 o gymharu â 2022/23.

**Siart 12: Faint o dir mae Cyngor Sir Ddinbych yn berchen arno ac mae'n ei weithredu ym mhob math o gynefin sy'n amrywio o ran eu cyfoeth o rywogaethau yn 2019/20 o'i gymharu â 2022/23**




Yn 2019/20, roedd 62% o'r tir y mae'r Cyngor yn berchen arno ac yn ei weithredu yn y categorïau isaf yn ôl cyfoeth rhywogaethau. Yn 2022/23, roedd y ffigwr hwn yn 58%.

Yn 2019/20, roedd 38% o'r tir y mae'r Cyngor yn berchen arno ac yn ei weithredu yn y categorïau uchaf yn ôl cyfoeth rhywogaethau Yn 2022/23, roedd y ffigwr hwn yn 42%.

Yn ogystal â hyn, mae nifer o gynefinoedd pwysig sy'n cynnal amrywiaeth eang o rywogaethau y mae'r Cyngor yn ffodus i fod yn berchen arnynt ond nad ydynt wedi'u cynnwys yn ein gwaelodlin o ran cyfoeth o rywogaethau o ganlyniad i gyfyngiadau o ran y categorïau o gynefinoedd sydd ar gael yn y fethodoleg ar gyfer mesur. Mae'r rhain yn cynnwys afonydd, nentydd a'r systemau twyni pwysig a chynefinoedd cerrig mân ar

arfordir Sir Ddinbych sy’n gartref i amrywiaeth o blanhigion ac anifeiliaid prin. Mae’r rhain yn cynnwys y nythfa ddiwethaf o Fôr-wenoliaid Bychan (rhywogaeth o adar) yng Nghymru, ynghyd â Madfall y Tywod a’r Llyffant Cefnfelyn y cafodd eu hailgyflwyno yma ar ôl iddynt ddiflannu yng Nghymru.

## Ble rydym ni eisiau cyrraedd?

I gyflawni ein nod Ecolegol Gadarnhaol, mae angen i’r Cyngor gynyddu’r ganran o’r tir yr ydym ni’n berchen arno ac yn ei weithredu sydd â mwy o gyfoeth o rywogaethau.


Gellir cyflawni hyn drwy adfer a newid y ffordd yr ydym ni’n rheoli’r tir yr ydym ni’n berchen arno ac yn ei weithredu i wella'r amrywiaeth o rywogaethau, a thrwy gynyddu’r tir yr ydym ni’n berchen arno ac felly creu mannau newydd (cilfachau ecolegol) a chynefinoedd cysylltiedig er budd natur.

Dylai’r canran o dir y mae’r Cyngor yn berchen arno ac yn ei weithredu sydd yn y categorïau isaf o ran cyfoeth o rywogaethau fod yn is na chanran y tir y mae’r Cyngor yn berchen arno ac yn ei weithredu sydd yn y categorïau uchaf o ran cyfoeth o rywogaethau er mwyn i’r Cyngor gyflawni ei nod Ecolegol Gadarnhaol. Mae’r tabl isod yn disgrifio’r newid canrannol a ddisgwylir erbyn 2030 a’n cynnydd hyd yma. Mae’n dangos ffigurau adrodd gwirioneddol ar gyfer ein cyfnod adrodd diweddaraf, yn 2022/23, yn ogystal â’r hyn yr ydym ni’n disgwyl ei gyflawni erbyn Blwyddyn 6 (2026/27) o’r rhaglen 9 mlynedd. Mae’r data’n dangos fod y Cyngor ar y trywydd iawn i gyflawni ein targed pe baem yn parhau â’r newidiadau a’r cynnydd cadarnhaol sydd wedi cael eu gwneud hyd yma i gynyddu bioamrywiaeth tir y mae’r Cyngor yn berchen arno ac yn ei weithredu.

**Tabl 9: Y newid yng nghanran cynefinoedd sydd â'r cyfoeth uchaf ac isaf o ran rhywogaethau**

| **Categorïau cyfoeth rhywogaethau** | **Man Cychwyn** | **% gwirioneddol ym Mlwyddyn 3 (2022/23)** | **% a ragwelir ym Mlwyddyn 6 (2026/27)** | **Nod terfynol 2030 (Targed)** |
|---|---|---|---|---|
| Y categorïau isaf o ran cyfoeth o rywogaethau | 62% | Wedi gostwng i 58% neu is | Gostwng i 53.3% neu is | Gostwng i 49% neu is |
| Y categorïau uchaf o ran cyfoeth o rywogaethau | 38% | Wedi cynyddu i 42.0% neu uwch | Cynyddu i 46.7% neu uwch | Cynyddu i 51% neu uwch |

**Siart 13: Cynnydd Blynyddol Cyfoeth Rhywogaethau Sir Ddinbych hyd at 2022/23 a'r targed blynyddol.**




Dros y 6 blynedd sy'n weddill o'r strategaeth, bydd y Cyngor yn parhau i ddiogelu, adfer a chynyddu graddau'r cynefinoedd hyn er mwyn diogelu a gwella bioamrywiaeth.

Mae cerdyn post o'r dyfodol wedi'i gynnwys isod fel ffordd o ddod â'r ffigurau hyn yn fyw drwy adrodd straeon – mae'n rhoi enghraifft o'r ffordd y gallai'r Cyngor fod wedi mynd ati i gyflawni ei darged ar gyfer 2030.

## Neges 4: Adfer Natur

Delwedd ar thema adfer natur gan Lily, enillydd cystadleuaeth Cerdyn Post o’r Dyfodol, o Ysgol Caer Drewyn.



**Neges o’r dyfodol:**

**Annwyl Gyngor 2020, Blwyddyn 2030 sydd yma! Nid wyf eisiau difetha unrhyw beth i chi, ond dyma rai o’r prif bwyntiau ar sut yr ydych chi wedi llwyddo i fod yn ecolegol gadarnhaol…**

Mae bellach yn ail natur i swyddogion adolygu gwerth bioamrywiaeth ac effaith pob prosiect, ymyrraeth neu weithgaredd y mae’r Cyngor yn ymgymryd ag ef a chyflawni’r gweithgaredd mewn ffordd sy’n cael effaith gadarnhaol ar ecoleg. Cymerir pob cyfle i beidio â pheri unrhyw niwed i fioamrywiaeth yn sgil gwaith y Cyngor ond phan na ellir osgoi niwed, mae cynlluniau’n cael eu gwneud a’u cyflawni sy’n gadael bioamrywiaeth mewn cyflwr gwell nag yr oedd pan ddechreuon ni.

Trwy ymdrechion ar y cyd ar draws adrannau, mae cynefinoedd glaswelltir gwell (sy'n cynnal cyfoeth is o rywogaethau) wedi’u trosi’n laswelltir niwtral (sy'n cynnal cyfoeth uwch o rywogaethau) gan gynyddu bioamrywiaeth yn y sir. Mae hyn wedi’i gyflawni drwy newidiadau helaeth yn y drefn dorri er mwyn caniatáu ar gyfer aildyfiant naturiol yn ogystal â hau hadau dolydd / blodau gwyllt.

O ran y budd cyfunol mwyaf, mae'r hectarau o goetir llydanddail a chymysg sy'n eiddo i'r Cyngor wedi cynyddu. Dros y naw mlynedd ddiwethaf, mae’r Cyngor wedi trosi tir presennol sydd â chyfoeth isel o rywogaethau, ac mae wedi prynu tir newydd i ddatblygu sinciau carbon a noddfeydd bywyd gwyllt trwy blannu coed a ddewiswyd yn ofalus, yn cynnwys glaswelltir sy’n llawn rhywogaethau.

Mae'r Cyngor wedi gwneud lle i natur, ac wedi mabwysiadu dull adfywio naturiol sy'n rhydd o ymyrraeth fecanyddol gan ddatblygu safleoedd yn esiamplau ecolegol. Mae amcanion craidd y gwaith hwn i ailgysylltu pobl â natur wedi’u cyflawni drwy gyfleoedd hamdden ac mae’r gwaith wedi ysbrydoli cenhedlaeth newydd o naturiaethwyr sy’n deall pwysigrwydd ein hamgylchedd naturiol, a sut i’w warchod. Mae myfyrwyr prifysgol yn ymweld i ddysgu am y fioamrywiaeth helaeth sydd o'n cwmpas.

## Pa newidiadau a chamau gweithredu fydd yn ein helpu ni i gyrraedd yno?

### Newidiadau i brosesau a pholisïau'r Cyngor

I gyflawni ein nod ecolegol gadarnhaol erbyn 2030, bydd yn rhaid i ni newid y ffordd yr ydym ni'n darparu'r amrywiaeth eang o waith a thasgau y mae Llywodraeth Cymru, ein partneriaid a'n cymunedau yn gofyn i ni eu gwneud.

Yn y fersiwn Ddiwygiedig Blwyddyn 3 hon o'r strategaeth, rydym ni wedi datblygu, adolygu ac adfywio'r 25 o awgrymiadau ar gyfer newidiadau polisi a phrosesau a nodwyd yn 2020 ac adolygiad 2024 i gyfrannu at warchod a gwella bioamrywiaeth.  Ein nod yw gweithredu gymaint o'r rhain â phosibl dros y 6 blynedd sy'n weddill o'r strategaeth.

Mae Atodiad 4 yn yr Atodiadau Technegol yn darparu gwybodaeth ar y newidiadau polisi a phrosesau sydd wedi'u rhestru yn y strategaeth a fabwysiadwyd yn 2021 sydd wedi cael eu cwblhau.

Mae'r rhestr isod yn tynnu sylw at rai o'r newidiadau â blaenoriaeth i brosesau a pholisïau'r Cyngor yr ydym ni'n gobeithio eu gwneud, gyda'r adnoddau sydd ar gael, ym Mlwyddyn 4 - 6 (2024/25 - 2026/27) o ddarparu'r strategaeth hon i gefnogi'r Cyngor i gyflawni ei nod ecolegol erbyn 2030.

Mae hon yn rhestr ddeinamig a hyblyg; gellir gweithredu pethau eraill nad ydynt yn ymddangos yn y graffig isod wrth ymateb i gyfleoedd newydd.

- Ystyried y posibilrwydd o bolisi/rhaglen 'Rheoli Asedau' ar draws y Sir ar gyfer bob un o'n mannau agored gwyrdd (gan gynnwys rheoli glaswelltir)
- Parhau i sefydlu gweithdrefnau safonol mewn perthynas â chwistrellu a strimio ac ystyried lleihau'r defnydd o chwynladdwyr
- Sefydlu'r archwiliad cydymffurfiaeth ecolegol ar gyfer ceisiadau cynllunio i sicrhau fod gwaith lliniaru, digolledu a gwella yn cael eu cwblhau.
- Adolygu'r broses fewnol i ymchwilio i'r ffordd orau i gofnodi a chyfathrebu gostyngiadau carbon a chyfraniadau ecolegol gadarnhaol mewn prosiectau ar y

cam dechrau, gan gynnwys adolygu sut cafodd cyfraniadau eu gweithredu gan Brosiectau drwy werthuso mewnol a monitro Adroddiadau Terfynu Prosiectau

- Datblygu polisi coed a gwrychoedd tai (a gweithio gyda chydweithwyr o'r Adran Gefn Gwlad a Phriffyrdd i sicrhau aliniad â'r polisi corfforaethol)

### Camau Gweithredu a Phrosiectau

Bydd cyflawni'r nod ecolegol gadarnhaol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor barhau i adeiladu ar raglenni gweithgarwch presennol a ddechreuwyd dan y Rhaglen Newid Hinsawdd ac Ecolegol a'r thema Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd yn ein Cynllun Corfforaethol, yn ogystal â darparu gweithgareddau a phrosiectau newydd.

Yn y fersiwn Ddiwygiedig Blwyddyn 3 hon o'r strategaeth, rydym ni wedi datblygu, adolygu ac adfywio dros 40 o syniadau ar gyfer prosiectau i warchod a gwella bioamrywiaeth a nodwyd yn 2020. Mae adborth a gafwyd o'n hymgynghoriad ym mis Mai 2024 wedi'i ymgorffori yn y fersiwn ddiwygiedig hon, ynghyd â gwybodaeth a gasglwyd o ffynonellau eraill, fel cardiau sgorio Climate Emergency UK.[24] Ein nod yw gweithredu cymaint o'r rhain â phosibl gyda'r adnoddau sydd ar gael dros y 6 blynedd sy'n weddill o'r strategaeth. Yn ogystal â chamau eraill, mae'n bosibl y byddwn yn ymateb i gyfleoedd newydd.

Mae Atodiad 4 yn yr Atodiadau Technegol yn darparu gwybodaeth ar y prosiectau a'r camau sydd wedi'u rhestru yn y strategaeth a fabwysiadwyd yn 2021 sydd wedi cael eu cwblhau.

Mae'r rhestr isod yn darparu trosolwg o'r camau a'r prosiectau blaenoriaeth a nodwyd hyd yma y mae'r Cyngor yn gobeithio eu cyflawni a fydd yn lleihau ac yn diogelu bioamrywiaeth. Mae darpariaeth y prosiectau a'r camau gweithredu hyn a nodwyd yn amodol ar sicrhau'r cyllid angenrheidiol. Mae'r cyfyngiadau ar gyllid Llywodraeth Leol yn sylweddol a bydd hynny'n parhau am flynyddoedd i ddod a fydd yn cael effaith ar bryd a sut y gellid darparu'r prosiectau a'r camau a nodwyd.

---

[24] https://councilclimatescorecards.uk/

**Blynyddoedd 4 i 6** (2024/25 i 2026/27)

- Ailystyried rheolaeth tiroedd mewn cartrefi gofal gyda'r nod o arbed arian, gwella bioamrywiaeth a gwella lles dinasyddion (yn y tymor byr a'r hirdymor lle gwneir gwelliannau i asedau)

**Blynyddoedd 4 i 9** (2024/25 i 2029/30)

- Bydd y gwaith yn cynnwys gofod natur a/neu randir ar ddatblygiadau tai cymdeithasol newydd
- Adolygu gwaith cynnal a chadw tir cyfredol a'u datblygu i alinio â dulliau ar gyfer cynyddu bioamrywiaeth a storio carbon ar dir Tai'r Cyngor
- Archwilio cyfleoedd ar gyfer bioamrywiaeth a storio carbon ar adeiladau Tai'r Cyngor e.e. canolfannau ieuenctid, toeau gwyrdd a garejis ac ati
- Parhau â'r prosiect dolydd blodau gwyllt ar dir y mae'r Cyngor yn berchen arno ac yn ei reoli
- Creu gwarchodfa natur 70 erw yn Llanelwy, adfer cynefinoedd a chefnogi bywyd gwyllt prin a phwysig.
- Ailgyflwyno rhywogaethau a gollwyd yn y gorffennol, fel y caniateir gan waith adfer cynefinoedd.
- Darparu cyfleoedd Gwella Bioamrywiaeth drwy ddiwrnodau ymaith i dimau yn ôl y gofyn gan Wasanaethau
- Rhannu rhaglen o fentrau ac ymgysylltiad i rannu adnoddau a dysg ar y rhaglen hon gydag ysgolion ar draws y sir ac annog newidiadau cadarnhaol mewn ymddygiad
- Parhau i weithio gydag ysgolion i nodi tir i blannu coed a chyflwyno blodau gwyllt er mwyn gwella bioamrywiaeth a storio carbon
- Gweithio i greu tudalen i gyfeirio preswylwyr a busnesau at wybodaeth yn ymwneud â'r rhaglen a chyfleoedd grant (gan gynnwys symiau cymudol) mewn perthynas â'r newid hinsawdd a'r rhaglen newid ecolegol

# Cefnogi Adferiad Natur ar draws Sir Ddinbych - Defnyddio ein Dylanwad

## Pam mae hyn yn bwysig?

Ers i ni ddatgan argyfwng newid hinsawdd ac ecolegol yn 2019, rydym ni wedi ystyried yr adborth a'r dystiolaeth sydd wedi tynnu sylw at yr angen i ni ddefnyddio ein dylanwad i gefnogi adferiad natur ar draws y sir yn hytrach na chanolbwyntio ar dir y mae'r Cyngor yn berchen arno ac yn ei weithredu yn unig.  Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau ecosystemau gwydn ac mae angen i'r Cyngor, ei bartneriaid a chymunedau lunio darlun eang er mwyn sicrhau bod cyfleoedd i greu lleoedd ar gyfer byd natur sy'n amrywiol, ar raddfa fawr, mewn cyflwr da, yn gysylltiedig ac sy'n cynnwys agweddau o gydnerthedd ecosystemau yn cael eu cymryd. Drwy weithio i gyflawni ein nod o fod yn Gyngor Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030 rydym yn gobeithio dylanwadu ar weithredoedd i wella bioamrywiaeth ar draws y sir drwy weithio gydag a chefnogi ein trigolion a'n cymunedau i weithredu.

## Beth yw'r man cychwyn?

Mae'n anodd cyfrifo a manylu ar ystadegau mewn perthynas â chyflwr natur a'n cynefinoedd ar draws sir Ddinbych.  Fodd bynnag, mae gwybodaeth o adroddiadau megis Datganiad diweddaraf Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas ag Ardal Gogledd Ddwyrain Cymru a  Bioamrywiaeth yn Sir Ddinbych , yn awgrymu bod cysylltedd a glaswelltiroedd brodorol yn wendidau yn Sir Ddinbych, gyda nifer o gynefinoedd a bywyd gwyllt bellach yn dirywio ac wir angen eu diogelu a'u cefnogi er mwyn iddynt fedru goroesi.

Mae'r Cyngor wedi dechrau mapio'r coridorau sydd wedi'u cysylltu ar gyfer byd natur ar draws y sir i'n galluogi i weld y newid ar draws y sir.  Mae llun 1 isod yn dangos graddau'r coridorau cysylltiedig hyn cyn 2018.  Mae'n dangos yr amrywiaeth o laswelltiroedd ar wasgar ar draws Gogledd Ddwyrain Cymru ac yn dangos pa mor dameidiog oedd nifer o laswelltiroedd Sir Ddinbych bryd hynny.


Mewn cyferbyniad, mae llun 2 yn dangos Sir Ddinbych yn 2023 o ran dosbarthiad y glaswelltiroedd a'r coridorau sydd wedi'u cysylltu ar gyfer byd natur.  Mae effaith gwaith

Cyngor Sir Ddinbych ar draws y ddau brif brosiect yn amlwg. Daeth y polisi glaswelltir[25] ar ymylon ffyrdd gwledig i rym yn 2019 sy'n golygu bod y rhwydwaith ffyrdd gwledig yn cael 'toriad bioamrywiaeth' unwaith y flwyddyn ac yn cael eu cysylltu â'r 11 o Warchodfeydd Natur ar Ymylon Ffyrdd sefydledig. Mae'r rhwydwaith yn cynnwys 78% o gyfanswm y rhwydwaith ffordd yn y sir ac yn golygu bod coridorau wedi'u cysylltu ar gyfer natur ar draws Sir Ddinbych wedi cael eu cynyddu i 1,820km. Yn ogystal â hynny, fel rhan o'r Prosiect Dolydd Blodau Gwyllt, nid yw dros 120 o safleoedd glaswelltir trefol (oddeutu 70 erw) yn cael eu torri mor aml er mwyn cefnogi bioamrywiaeth a lles preswylwyr. Mae'r safleoedd hyn yn pontio'r bwlch o fewn ardaloedd trefol, nad yw'r rhwydwaith ymylon ffyrdd yn eu cyrraedd. Maent yn gweithredu fel cerrig camu ar draws ein hamgylcheddau trefol ac yn cefnogi bywyd gwyllt ar draws ardaloedd trefol i fedru symud yn ôl i'r rhwydwaith ymylon ffyrdd gwledig ehangach.


Mae'r cynefin mwy hwn sydd bellach yn fwy cysylltiedig yn darparu colofn gysylltu ganolog yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. Mae ein cydweithwyr yn Sir y Fflint a Chonwy bellach wedi dechrau trosi eu rhwydweithiau gwledig i'r un rheolwyr ac wedi parhau i adeiladu ar eu prosiectau dolydd trefol. Drwy gydweithio gyda'n cymdogion, gallwn gynyddu coridorau cysylltiedig ar gyfer natur ar draws ardal gyfan Gogledd Ddwyrain Cymru.

[25] https://www.denbighshire.gov.uk/en/documents/parking-roads-and-travel/highway-rural-grass-cutting-policy.pdf

**Delwedd 1 – Dosbarthiad glaswelltir yn Sir Ddinbych a choridorau cysylltiedig ar gyfer natur cyn 2018**



**Delwedd 2 – Dosbarthiad glaswelltir yn Sir Ddinbych a choridorau cysylltiedig ar gyfer natur yn 2023**




## Pa newidiadau a chamau mae'r Cyngor yn eu cwblhau i ddefnyddio ein dylanwad i gefnogi adferiad natur ar draws Sir Ddinbych?

### Newidiadau i brosesau a pholisïau'r Cyngor

Yn y fersiwn Ddiwygiedig Blwyddyn 3 hon o'r strategaeth, rydym ni wedi datblygu, adolygu ac adfywio'r awgrymiadau ar gyfer newidiadau polisi a phrosesau a nodwyd yn 2020 ac adolygiad 2024 sy'n cyfrannu at gefnogi adferiad natur ledled Sir Ddinbych. Ein nod yw gweithredu cymaint o'r rhain â phosibl gyda'r adnoddau sydd ar gael dros y 6 blynedd sy'n weddill o'r strategaeth.

Mae Atodiad 5 yn yr Atodiadau Technegol yn cyflwyno gwybodaeth ar y newidiadau polisi a phrosesau a gafodd ddylanwad ehangach yn y Sir a restrwyd yn y strategaeth a fabwysiadwyd yn 2021 ac sydd bellach wedi'u cwblhau.

Mae'r rhestr isod yn amlygu rhai o'r newidiadau blaenoriaethol i brosesau a pholisïau'r Cyngor yr ydym yn gobeithio eu rhoi ar waith ym Mlwyddyn 4 - 6 (2024/25 - 2026/27) o ddarparu'r strategaeth hon i gefnogi'r Cyngor i gyflawni ei nod sero carbon net erbyn 2030.

Mae hon yn rhestr ddeinamig a hyblyg; mae'n bosibl y byddwn yn gweithredu rhai pethau eraill nad ydynt yn y graffig isod, wrth i ni ymateb i'r cyfleoedd newydd.

- Sicrhau fod Polisïau Clefyd Coed Ynn o ran plannu coed newydd yn cefnogi cynnyddu'r stoc o goed brodorol .
- Datblygu'r CDLl newydd i sicrhau bod blaenoriaethau lleol sy'n dod i'r amlwg o ran newid hinsawdd a bioamrywiaeth yn cael eu hadlewyrchu mewn penderfyniadau a pholisïau cynllunio lleol.
- Defnyddio polisïau cynllunio o fewn Cynllun Datblygu Lleol 1 a Chanllawiau Cynllunio Atodol presennol y Cyngor sy'n cyfrannu at ddatblygiad amgylcheddol gyfrifol.
- Sicrhau fod gweithwyr ac aelodau'n derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am bolisïau, deddfwriaeth ac unrhyw ganllawiau newydd e.e canllawiau cynllunio atodol
- Defnyddio Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus / buddion cymunedol / effeithiau Lles yng nghontractau'r Cyngor i gefnogi adferiad natur a bioamrywiaeth
- Nodi swyddogion y Cyngor sy'n caffael yn rheolaidd i dargedu cyfathrebu a hyfforddiant ar y rhaglen Newid Hinsawdd ac Ecolegol a chyfraniad caffael sy'n gyfrifol yn amgylcheddol.
- Adolygu'r Strategaeth Ystâd Amaethyddol ac archwilio opsiynau i wneud gwelliannau amgylcheddol, adfer natur ac allyriadau di-garbon.

## Camau Gweithredu a Phrosiectau

Yn y fersiwn Ddiwygiedig Blwyddyn 3 hon o'r strategaeth, rydym ni wedi datblygu, adolygu ac adfywio syniadau ar gyfer prosiectau a nodwyd yn 2020 sy'n cefnogi adfer natur ledled Sir Ddinbych. Mae adborth a gafwyd o'n hymgynghoriad ym mis Mai 2024 wedi'i ymgorffori yn y fersiwn ddiwygiedig hon, ynghyd â gwybodaeth a gasglwyd o ffynonellau eraill, fel cardiau sgorio Climate Emergency UK.[26] Ein nod yw gweithredu cymaint o'r rhain

[26] https://councilclimatescorecards.uk/

â phosibl gyda'r adnoddau sydd ar gael dros y 6 blynedd sy'n weddill o'r strategaeth.  Yn ogystal â chamau eraill, mae'n bosibl y byddwn yn ymateb i gyfleoedd newydd.

Mae Atodiad 5 yn yr Atodiadau Technegol yn darparu gwybodaeth ar y prosiectau a'r camau sydd wedi'u rhestru dan 'defnyddio ein dylanwad' yn y strategaeth a fabwysiadwyd yn 2021 sydd wedi cael eu cwblhau.

Mae'r rhestr isod yn darparu trosolwg o'r camau a'r prosiectau blaenoriaeth a nodwyd hyd yma y mae'r Cyngor yn gobeithio eu cyflawni er mwyn cynyddu'r dylanwad y gallwn ei gael i adfer natur draws Sir Ddinbych.  Mae darpariaeth y prosiectau a'r camau gweithredu hyn a nodwyd yn amodol ar sicrhau'r cyllid angenrheidiol.  Mae'r cyfyngiadau ar gyllid Llywodraeth Leol yn sylweddol a bydd hynny'n parhau am flynyddoedd i ddod a fydd yn cael effaith ar bryd a sut y gellid darparu'r prosiectau a'r camau a nodwyd.

**Blynyddoedd 4 i 6** (2024/2025 i 2026/2027)

- Ystyried ffyrdd i gynyddu bioamrywiaeth o fewn cadwynau cyflenwi yn ogystal â chwblhau Fframwaith Gofal Cartref Gogledd Cymru
- Darparu hyfforddiant Polisi Cynllunio Cymru mewn perthynas â'r Bennod 6 newydd
- Defnyddio Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus / buddion cymunedol / effeithiau Lles  yng nghontractau'r Cyngor i gefnogi adferiad natur a bioamrywiaeth

**Blynyddoedd 4 i 9** (2024/2025 i 2029/2030)

- Darparu rhaglen flynyddol o waith Clefyd Coed Ynn
- Bydd Adroddiad Monitro Blynyddol y CDLl yn ffynhonnell wybodaeth mewn perthynas â newid hinsawdd a bioamrywiaeth
- Manteisio ar gyfleoedd sy'n codi i gyfrannu at wneud defnydd gwell o dir ar draws y sir i gyflawni sawl amcan e.e. rheoli risg llifogydd naturiol drwy blannu coed, creu amrywiaeth o gynefinoedd, cyfleoedd addysg yn gysylltiedig â natur a'r hinsawdd ac ati.
- Gweithio â'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'r Polisi Cynllunio i sicrhau fod canllawiau clir yn cael eu darparu i ddarpar ddatblygwyr mewn perthynas â lleihau carbon a

bioamrywiaeth o fewn datblygiadau  Defnyddio proses ddilysu'r Awdurdod Cynllunio Lleol, lle bo hynny'n rhesymol, i sicrhau cydymffurfiaeth (yn dilyn diweddaru Pennod 6 Polisi Cynllunio Cymru)

- Bydd darparu'r Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n deillio o'r Cynllun Datblygu Lleol yn cefnogi'r rhaglen newid hinsawdd a bioamrywiaeth
- Creu a hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddol o fewn Gwasanaethau Cefn Gwlad a'r cyhoedd i gyfrannu at y rhaglen hon a chysylltu gyda sgiliau/swyddi gwyrdd
- Parhau i gydlynu Bionet, Partneriaeth Natur Leol Gogledd Ddwyrain Cymru, gan gefnogi a hyrwyddo sefydliadau partner wrth gynllunio a gweithredu gwaith cadwraeth natur.
- Cydweithio gyda phartneriaid ar Fforwm Dalgylch Afon Clwyd (prosiect peilot dan Ddatganiad Ardal CNC) sy'n gweithio i wella ansawdd y dŵr, bioamrywiaeth a gwytnwch Afon Clwyd yn erbyn llifogydd
- Nodi swyddogion y Cyngor sy'n caffael yn rheolaidd i dargedu cyfathrebu a hyfforddiant ar y rhaglen Newid Hinsawdd ac Ecolegol a chyfraniad caffael sy'n gyfrifol yn amgylcheddol.
- Gweithredu rhaglen o fentrau, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, i godi ymwybyddiaeth ymhlith preswylwyr a busnesau yn Sir Ddinbych am y rôl y gallant ei chwarae i wella bioamrywiaeth
- Cefnogi perchnogion tir yn Sir Ddinbych i annog rheoli a defnyddio tir er lles bioamrywiaeth a gwelliannau ecolegol.
- Gweithio gyda thenantiaid amaethyddol y Cyngor i annog rheoli a defnyddio tir er budd storio carbon, gwelliant ecolegol a bioamrywiaeth.  Ystyried cyfleoedd i weithio gydag un ffarm tenant i beilota'r dull hwn
- Ystyried gwella prosesau cyfathrebu ac ymgysylltu ag ysgolion mewn perthynas â'r rhaglen newid hinsawdd ac ecolegol e.e. cynnwys materion neu gyfleoedd pwysig yn newyddlenni ysgolion a'r rhaglen ysgolion eco
- Gweithio gyda Hyrwyddwr Llais y Dysgwyr newydd y Cyngor Ieuenctid i archwilio ffyrdd o ymgorffori'r rhaglen hinsawdd ac ecolegol yn eu rôl

## Strategaeth ariannol i gefnogi'r strategaeth a'r cynllun gweithredu

Yn yr un modd ag Awdurdodau Lleol eraill ar draws Cymru, mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn heriol iawn ar hyn o bryd, ac mae arbedion cyllidebol sylweddol yn anochel.

Mae ariannu toriadau dros gyfnod estynedig yn golygu fod llawer llai o arian ar gael gennym i'w fuddsoddi mewn gwasanaethau rŵan nac yn y gorffennol. Rhagwelir y bydd gweithredu gwasanaethau dydd i ddydd yn 2024/25 - gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol, casgliadau gwastraff ac ysgolion, yn costio 24.5 miliwn yn ychwanegol yn sgil prisiau cynyddol, chwyddiant a phwysau ar alw. Mae'n rhaid i'r Cyngor felly ganfod arian ychwanegol drwy arbedion ac effeithlonrwydd, newidiadau i wasanaethau, cynyddu Treth y Cyngor neu drwy leihau neu dorri gwasanaethau.

Ystyrir hyn yng nghyd-destun mabwysiadu'r Fersiwn Ddiweddaraf hon ym Mlwyddyn 3 o'r strategaeth. Er gwaethaf y sefyllfa anodd yr ydym yn ei hwynebu, mae'n uchelgais clir gan y Cyngor i gyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfwng newid hinsawdd a newid ecolegol. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r uchelgeisiau i ddod yn Gyngor di-garbon net ac ecolegol gadarnhaol a'r amrywiaeth o newidiadau a chamau y gallai'r Cyngor eu cwblhau i gyflawni'r nodau hyn, ynghyd â gwaith i wella gwytnwch yr hinsawdd a defnyddio ein dylanwad i atal newid yn yr hinsawdd ac adfer natur ar draws y Sir.

Bydd rhai o'r newidiadau a'r camau gweithredu yn gofyn am fuddsoddiad cyfalaf, mae'n bosibl y bydd eraill yn gofyn am gyllid refeniw a rhai y gellir eu darparu am ddim cost ychwanegol. Bydd yn rhaid i staff fod ar gael er mwyn datblygu a darparu'r mentrau mewn cyfnod lle mae pwysau cynyddol ar gapasiti. Mae darpariaeth y prosiectau a'r camau gweithredu hyn a nodwyd yn y strategaeth hon yn amodol ar sicrhau'r cyllid angenrheidiol. Mae'r cyfyngiadau ar gyllid Llywodraeth Leol yn sylweddol a bydd hynny'n parhau am flynyddoedd i ddod a fydd yn cael effaith ar bryd a sut y gellid darparu'r prosiectau a'r camau a nodwyd. Yn 2024/25 a 2025/26, bydd mentrau sy'n arbed arian yn ogystal ag arbed carbon neu'n gwella bioamrywiaeth yn cael eu blaenoriaethu. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i'r perfformiad aros yn gyson am y blynyddoedd hyn.

Mae gwaith modelu ariannol lefel uchel wedi cael ei gwblhau ar y gweithgarwch cyfalaf sy’n ofynnol i ddatgarboneiddio’r fflyd, adeiladau a chynyddu amsugnad carbon i ddarparu cost cyfalaf amcangyfrifedig a dangosol i ddarparu’r strategaeth hon dros y 6 blynedd sy’n weddill (2023/24- 2029/30). Mae’r gwaith hwn yn awgrymu y bydd y costau cyfalaf yn oddeutu £48 miliwn er mwyn darparu’r prosiectau sydd eu hangen i gyflawni popeth.

Mae’r ffigwr buddsoddi i gyflawni nod y Cyngor i fod yn ddi-garbon net ac yn ecolegol gadarnhaol yn swm mawr o arian, ac ni all y Cyngor ddarparu’r arian hwn i gyd ar ei ben ei hun. Er mwyn gallu cwblhau’r prosiectau i gyflawni’r hyn yr hoffem ei gyflawni, byddwn yn dibynnu ar grantiau gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a chyrff cenedlaethol ac yn manteisio ar gyfleoedd ar gyfer mecanweithiau ariannu cymunedol a masnachol. Disgwylir y byddwn yn manteisio ar gyfleoedd i sicrhau cyllid grant allanol dros y 6 blynedd sy’n weddill, gan ategu at ein llwyddiant dros 3 blynedd cyntaf y strategaeth lle talwyd 36% o gyfanswm y gwariant cyfalaf gan grant allanol.

I dalu am y buddsoddiad cyfalaf sydd wedi’i glustnodi bydd angen i ni ymrwymo cyllideb refeniw ac arian parod ar gyfer cyflawni’r flaenoriaeth hon. Mae’n debygol y bydd cyfran o’r buddsoddiad sydd ei angen yn cael ei gynhyrchu drwy fenthyca darbodus.

Mae gennym fesurau ar waith i sicrhau fod pob penderfyniad buddsoddi cyfalaf unigol rydym yn eu gwneud yn seiliedig ar achosion busnes cadarn a bod y sefyllfa gyffredinol o ran talu dyledion yn cael ei monitro’n ofalus ac yn parhau i fod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy. Mae ein cynlluniau a’n prosesau cyllideb refeniw wedi hen sefydlu ac yn ein galluogi i reoli fforddiadwyedd.

Fforddiadwyedd yw’r brif elfen sy’n peryglu gallu’r Cyngor i gyflawni ei nodau i fod yn ddi-garbon net ac yn ecolegol gadarnhaol a’i uchelgeisiau mewn perthynas â gwytnwch yn erbyn risgiau’r hinsawdd a gweithredu ar draws y sir i fynd i’r afael â’r newid hinsawdd ac adferiad natur. Fodd bynnag, mae’r Cyngor hwn yn parhau i ymrwymo i gyfrannu at fynd i’r afael â’r newid hinsawdd ac ecolegol lle bynnag a phryd bynnag y bo modd.

## Sut bydd cynnydd yn cael ei fonitro?

Bydd y strategaeth hon yn cael ei chyflawni fel rhaglen o weithgarwch, bydd wedi’i chydlynu’n ganolog a bydd swyddogion o bob rhan o feysydd gwasanaeth y Cyngor yn ymdrechu ac yn rhoi mewnbwn ac yn gweithio gyda’n partneriaid pan fo’n berthnasol.

Yr unigolyn sy'n atebol am gyflawni'r amcanion hyn yw Cyfarwyddwr Corfforaethol - Llywodraethu a Busnes y Cyngor fel Noddwr gweithredol y Rhaglen Waith. Darperir llyw gwleidyddol gan Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant ac mae'r gweithgor gwleidyddol trawsbleidiol yr Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol yn gweithredu fel grŵp cynghori ar gyfer cyfarfod y rhaglen bob chwarter.

Bydd y Cyngor yn cyfrifo ei allyriadau carbon, faint o garbon mae’n ei amsugno a chyfoeth y rhywogaethau sydd ar ei dir rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf bob blwyddyn i weld sut perfformiodd y Cyngor o ran y metrigau Carbon Sero Net ac Ecolegol Gadarnhaol hyn yn y flwyddyn ariannol flaenorol (Ebrill - Mawrth). Bydd y Cyngor yn cyflwyno ei ddata ar allyriadau carbon ac amsugnad carbon i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn ym mis Medi yn rhan o’r Drefn Adrodd ar Nwyon Tŷ Gwydr Sector Cyhoeddus Cymru.

Bydd Bwrdd Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd yn monitro’r cynnydd o ran cyflawni'r amcanion a nodir yn y Strategaeth ar Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol hon. Y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Llywodraethu a Busnes sy’n cadeirio Bwrdd Sir Ddinbych Mwy Gwyrdd ac mae'n cynnwys Aelodau Arweiniol y Cabinet ar gyfer y rhaglen hon a Phenaethiaid Gwasanaeth allweddol y mae eu meysydd gwasanaeth yn cyfrannu at gyflawni'r strategaeth.

Bydd mesuryddion perfformiad allweddol ac uchafbwyntiau’r rhaglen yn cael eu hintegreiddio i adroddiad perfformiad y Cynllun Corfforaethol, sy’n cael ei archwilio’n chwarterol drwy'r Tîm Arwain Strategol, y Cabinet a Chraffu, ac yn flynyddol gan y Cyngor.

Bydd papur adolygu 12 mis yn cael ei gyflwyno i’r Cyngor Llawn bob blwyddyn yn tynnu sylw at y cynnydd a wnaed a’r camau nesaf gan gyfeirio’n ôl at Ddatganiad Argyfwng Hinsawdd y Cyngor yn ogystal ag at Graffu Perfformiad bob hydref gan ddechrau yn 2025.

Gall y Pwyllgor Archwilio Mewnol a Phwyllgorau Craffu eraill hefyd graffu ar gynnydd y Cyngor o ran cyflawni amcanion Carbon Sero Net ac Ecolegol Gadarnhaol 2030 ar

adegau priodol dros y 6 blynedd sy'n weddill o'r Strategaeth ac yn ôl disgresiwn y Prif Archwilydd Mewnol a Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu.

Bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu a’i hadnewyddu’n ffurfiol bob 3 blynedd hyd at 2030 a bydd yr adolygiad nesaf yn cael ei gynnal yn 2026/27.

## Sut byddwn ni'n rhannu'r hyn a ddysgwyd?

Newid hinsawdd a newid ecolegol yw her fyd-eang fwyaf ein hoes. Bydd angen i bawb gyfrannu at ei ddatrysiadau - cyfuno ymdrech, gwybodaeth ac adnoddau.

Mae dull y Cyngor o sicrhau ei fod yn Gyngor Carbon Sero Net ac Ecolegol Gadarnhaol a chynyddu cydnerthedd hinsawdd yn agored ac yn gydweithredol. Mae'r Cyngor yn edrych ymlaen at ddysgu gan eraill, manteisio ar gyfleoedd gyda'n gilydd, a rhannu ein profiad dros y 6 blynedd sy'n weddill hyd at 2030.

Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn parhau i weithio gyda'n Partneriaid Sector Cyhoeddus drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus[27], gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar ein blaenoriaeth 'Lles' ar y cyd[28] –.fel y rhestrir yn y Cynllun Lles Lleol (2023-2028), rhannu'r hyn a ddysgwyd o'n hymdrechion i gyflawni'r amcanion ar gyfer bod yn Gyngor Carbon Sero Net ac Ecolegol Gadarnhaol, ynghyd â chynyddu ein cydnerthedd hinsawdd, a cheisio cyngor gan eraill.

Bydd y Cyngor yn rhannu'r hyn a ddysgodd â Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn Sir Ddinbych. Gan weithio gyda phartneriaid Llywodraeth Leol drwy'r Panel Strategaeth Hinsawdd Llywodraeth Leol, a chyfleoedd eraill, bydd y Cyngor yn ceisio dylanwadu ar Lywodraeth Cymru i symleiddio a chysoni'r polisi a'r dirwedd ddeddfwriaethol bresennol, hwyluso'r effaith gynyddol drwy weithio ar raddfa, cefnogi'r ymgysylltu cynyddol a newid ymddygiad, gweithio gyda chymunedau a darparu adnoddau sy'n adlewyrchu maint yr argyfwng hinsawdd yr ydym ni i gyd yn ei wynebu.

Bydd y newyddion diweddaraf, cyngor a chyfleoedd i gymryd rhan yn cael eu rhannu ar wefan gorfforaethol y Cyngor a phorth Ymgynghori'r Cyngor. Byddwn yn cyhoeddi e-newyddlen unwaith y flwyddyn yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Cyngor ar y rhaglen hon, ac rydym yn anelu at gynnal digwyddiad ymgysylltu cyhoeddus unwaith y

---

[27] Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn bartneriaeth o asiantaethau gwasanaethau cyhoeddus sy'n cydweithio i wella gwasanaethau lleol. Mae rhestr o bartneriaid presennol BGC Conwy a Sir Ddinbych ar gael ar wefan y BGC.

[28] Mae cymunedau'n hapusach, yn iachach ac yn fwy gwydn wrth wynebu heriau, fel yr Argyfwng Newid Hinsawdd a Byd Natur, neu'r cynnydd yng nghostau byw.

flwyddyn.  Byddwn yn rhannu’r gwersi a ddysgwyd gyda busnesau ar draws Sir Ddinbych ar ein sianeli cyfathrebu busnes a reolir gan Dîm Datblygu Busnes ac Economaidd y Cyngor.

# Atodiadau Technegol

## Atodiad 1 - Rhagor o wybodaeth ar feysydd lle mae'r targed wedi profi i fod yn heriol iawn

Ar gyfer y meysydd hynny y mae'r targed gofynnol wedi bod yn her, mae'r tablau isod yn egluro'r bwlch a ragwelir rhwng y llwybrau hysbys a'r llwybrau wedi'u targedu a'r rhesymau dros y bwlch disgwyliedig hwn. Mae'r llwybr gostwng hysbys yn dangos y targed cyraeddadwy disgwyliedig ar gyfer y ffynonellau allyriadau hyn, yn seiliedig ar yr heriau a nodwyd ar hyn o bryd.

### Allyriadau Carbon o Adeiladau (annomestig)

Mae'r blwch isod yn dangos y bwlch targed disgwyliedig ar gyfer lleihau allyriadau carbon o'n hadeiladau annomestig. Mae'r targed gofynnol o ostyngiad o 60% yn y ffynhonnell hon yn mynd i fod yn heriol yn sgil y rhesymau a amlinellir. Mae'r rhain yn cynnwys effaith yr amserlenni, cyllideb, cyfyngiadau o ran arbenigedd a diffyg datgarboneiddio yn y rhwydwaith drydan sy'n golygu ei bod yn fwy tebygol y bydd gostyngiad o oddeutu 330 tunnell o CO2 y flwyddyn yn gallu cael ei gyflawni, yn hytrach na'r targed o 660 tunnell o CO2e. Nid yw hyn yn golygu nad ydym yn anelu at gyflawni gymaint â phosibl, fodd

**Uchelgais 2030**: targed gostyngiad o 60% (-660 tCO2e y flwyddyn)

**Llwybr gostwng hysbys:** targed disgwyliedig 30% (-330 tCO2e)

**Cyfyngiadau a dibyniaethau** (egluro'r bwlch rhwng uchelgais 2030 a'r llwybr gostwng hysbys):

- Argaeledd gallu a chapasiti o fewn y gadwyn gyflenwi i lunio a darparu cynlluniau
- Pris trydan
- Datblygu technoleg hydrogen gwyrdd
- Datgarboneiddio'r grid cenedlaethol
- Setliad ariannol llywodraeth leol

bynnag, mae’n synhwyrol amlygu’r diffyg disgwyliedig nawr, yn seiliedig ar y llwybr cyfredol.

### Allyriadau Carbon sy’n gysylltiedig â chymudo Staff

Mae’r blwch isod yn tynnu sylw at yr heriau a ddisgwylir wrth gyflawni ein tared i ostwng allyriadau carbon sy’n gysylltiedig â staff yn cymudo. Mae’r targed gofynnol o ostyngiad o 20% yn y ffynhonnell hon yn mynd i fod yn heriol yn sgil y rhesymau a amlinellir. Mae adborth diweddar wedi amlygu bod mwy o staff angen cymudo i’r swyddfa na’r hyn a gredwyd yn y dadansoddiad cyntaf. Mae’r data hefyd yn seiliedig ar ddata cymudo lefel gwasanaeth amcangyfrifedig ac nid ffigurau gwirioneddol, gyda lled o +/- 25% ar gyfer gwallau. Gallai gwaith ymchwil pellach er mwyn gallu casglu’r data gwirioneddol ddangos bod y targed hwn yn fwy ymarferol, ond bydd angen gwaith dadansoddi pellach cyn y bydd y targed disgwyliedig yn hysbys. Nid yw hyn yn golygu nad ydym yn anelu at gyflawni gymaint â phosibl, fodd bynnag, mae’n synhwyrol amlygu’r diffyg disgwyliedig nawr, yn seiliedig ar y llwybr cyfredol.

**Uchelgais 2030**: targed o 20% (-1,478 tCO2e)

**Llwybr gostwng hysbys**: Heb newid yn amodol ar ddadansoddi pellach

**Cyfyngiadau a dibyniaethau** (egluro’r bwlch rhwng uchelgais 2030 a’r llwybr gostwng hysbys)

- Cyfran y staff sy’n gweithio yn y swyddfa yn uwch na'r hyn a amcangyfrifwyd.
- Data Disgwyliedig
- Diffyg data am batrymau gweithio staff
- Bydd angen rhagor o waith dadansoddi i ddeall anghenion swyddfa’r timau a’r gwasanaeth yn well.

## Amsugniad carbon o ddefnydd tir (coetiroedd a glaswelltir)

Mae'r blwch isod yn tynnu sylw at yr heriau a ddisgwylir o ran cyflawni ein targed i gynyddu lefelau storio (amsugno) carbon. Mae'r targed gofynnol o gynnydd o 203% yn y ffynhonnell hon yn mynd i fod yn heriol yn sgil y rhesymau a amlinellir. Mae'r rhain yn cynnwys argaeledd tir priodol o fewn portffolio'r Cyngor neu ar y farchnad agored, a'r gyllideb sydd ar gael i sicrhau'r tir ychwanegol a fyddai'n ofynnol ynghyd ag unrhyw waith dadansoddi perthnasol i lywio ein stoc garbon. Mae lefel y cynnydd amsugno carbon disgwyliedig felly'n debygol o fod yn nes at gynnydd o 54%, yn seiliedig ar y ffactor allyriadau addasu aeddfedrwydd ar gyfer unrhyw goetir a grëir. Mae hyn o ganlyniad i'r ffaith nad oes unrhyw gyllid ar gael ar hyn o bryd i gynyddu cyfanswm y tir sy'n berchen i'r cyngor at y diben hwn, ac ychydig iawn o'r tir sy'n weddill ac yn berchen i'r cyngor sy'n addas. Nid yw hyn yn golygu nad ydym yn anelu at gyflawni'r hyn a fedrwn ac yn parhau i chwilio am gyfleoedd addas, yn fewnol ac yn allanol ar draws y sir ar gyfer y diben hwn, fodd bynnag, byddai'n synhwyrol amlygu'r diffyg disgwyliedig nawr, yn seiliedig ar y llwybr presennol.

**Uchelgais 2030** targed o +203% (7,329 tCO2e)

**Llwybr gostwng hysbys:** +54% (3,719 tCO2e) Noder: Ffigwr addasu aeddfedrwydd

**Cyfyngiadau a dibyniaethau** (egluro'r bwlch rhwng uchelgais 2030 a'r llwybr gostwng hysbys)

- Tir ar gael i'w brynu
- Cyfanswm y tir sydd ar gael o fewn perchnogaeth CSDd sy'n addas ar gyfer plannu coed
- Cyllideb/cyllid sydd ar gael i brynu tir. Cyllideb sydd ar gael ar gyfer gwaith dadansoddi e.e. i gasglu data yn ymwneud ag amsugno carbon ar gyfer asedau coed trefol/unigol.

## Atodiad 2 - Prosiectau/Gweithgareddau a Newidiadau Polisi / Prosesau wedi'u Cwblhau i gyfrannu at gyflawni'r Nod Sero Carbon Net

Cwblhawyd y prosiectau a'r gweithgareddau a'r newidiadau polisi / prosesau canlynol a nodwyd yn 2020 i gyfrannu at leihau carbon a/neu gynyddu amsugniad carbon ac a restrwyd yn y strategaeth a fabwysiadwyd yn 2021:

- Trosi 3 o'n cerbydau gwastraff i fod yn gerbydau trydan
- Ail-lansio ailgylchu mewn adeiladau dinesig a gosod biniau newydd ar safleoedd y Cyngor er mwyn gwahanu gwastraff ailgylchu yn y tarddle
- Gweithio i leihau plastig yn swyddfeydd y Cyngor
- Cyflawni prosiect gwella ar gyfer cynyddu nifer y tunelli o wastraff sy'n cael ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu ac sy'n cael ei gynhyrchu drwy gyflawni swyddogaethau gwasanaethau rheng flaen amrywiol Priffyrdd a Gwasanaethau Stryd.
- Cwblhau ein prosiect goleuadau stryd LED 7 mlynedd
- Gwneud gymaint o waith â phosibl cyn gynted â phosibl er mwyn cyflawni'r nod o fod yn ddi-bapur e.e. bwndelu achosion electronig, llofnodi a selio contractau'n electronig, pecynnau papur electronig ar gyfer cyfarfodydd democrataidd
- Gan ymgynghori â staff ac undebau, cynnwys cyfrifoldeb staff dros newid hinsawdd ac ecolegol ym mhob swydd ddisgrifiad.
- Ymchwilio sut y gellid, drwy Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, gynnwys cynaliadwyedd a diogelu a gwella bioamrywiaeth ym mhob tendr.
- Datblygu a sicrhau bod y Grŵp Rheoli Asedau yn mabwysiadu'r Strategaeth Rheoli Asedau newydd
- Drwy ymgysylltu a chyfathrebu, sicrhau fod amcanion gwasanaethau'n alinio â'r uchelgais corfforaethol i fod yn ddi-garbon net a lleihau allyriadau'r gadwyn gyflenwi
- Drwy ein rôl ar Bwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd, annog y Gronfa i nodi'r newid yn yr hinsawdd fel risg ariannol, mesur a deall ei gysylltiad â charbon o fewn ei bortffolio buddsoddi a gosod targedau gostwng carbon cytunedig

- Gweithredu newid yng nghyfansoddiad y Cyngor i ystyried mynd i’r afael â’r newid hinsawdd ac ecolegol, gan gynnwys newidiadau i dempledi achosion busnes a chyflwyno dull prisio oes gyfan
- Gweithredu dull Ailgylchu a Gwastraff safonol newydd ar draws ysgolion a safleoedd y Cyngor gan gynnwys darparu ystod eang o opsiynau ailgylchu

## **Atodiad 3 -** Prosiectau/Gweithgareddau a Newidiadau Polisi / Prosesau wedi'u Cwblhau i gyfrannu at leihau allyriadau carbon a chynyddu lefelau amsugno carbon ar draws Sir Ddinbych - Defnyddio ein Dylanwad

Cwblhawyd y prosiectau a'r gweithgareddau a'r newidiadau polisi / prosesau canlynol a nodwyd yn 2020 i gyfrannu at leihau carbon a/neu gynyddu amsugniad carbon a oedd yn arbennig o ddylanwadol ac a restrwyd yn y strategaeth a fabwysiadwyd yn 2021:

- Gweithredu Hwb Buddion Cymunedol
- Creu porth ar-lein i lunio adroddiad ar Fudd Cymunedol contractau gan gynnwys mesurau mewn perthynas â'r rhaglen hon
- Darparu'r CDLl newydd, sy'n cyflwyno blaenoriaethau lleol ar gyfer cynllunio defnydd tir o fewn y fframwaith polisi cenedlaethol. Bydd y CDLl newydd yn sicrhau bod blaenoriaethau lleol sy'n dod i'r amlwg o ran newid hinsawdd a bioamrywiaeth yn cael eu hadlewyrchu mewn cynllunio lleol
- Datblygu a chynnig safon ar gyfer dulliau eco-gyfeillgar mewn perthynas ag adeiladau newydd a gwaith ailwampio sylweddol (gan leihau'r defnydd o ynni, gwastraff a dŵr a hwyluso teithio carbon isel) i'w hystyried gan y Cabinet gan wneud penderfyniad terfynol erbyn mis Medi 2021
- Cyflwyno hyfforddiant Llythrennedd Carbon i bob Cynghorydd a Rheolwr a chreu modiwl e-ddysgu ar themâu llythrennedd carbon i bob aelod o staff
- Ymgysylltu gyda Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned i leihau carbon a chynyddu amsugniad carbon drwy adolygu a diweddaru'r Siarter Cyngor Dinas, Tref a Chymuned

## Atodiad 4 - Prosiectau/Gweithgareddau a Newidiadau Polisi / Prosesau wedi'u Cwblhau i gyfrannu at gyflawni'r Nod Ecolegol Gadarnhaol

Cwblhawyd y prosiectau a'r gweithgareddau a'r newidiadau polisi / prosesau canlynol a nodwyd yn 2020 i gyfrannu at wella gwytnwch ecosystemau ar dir sy'n berchen i Gyngor Sir Ddinbych ac a restrwyd yn y strategaeth a fabwysiadwyd yn 2021:

- Tendro contract cynnal a chadw tiroedd ar gyfer Ystadau Tai gan ddefnyddio manyleb sy'n gwella bioamrywiaeth e.e. gadael ardaloedd o laswellt hir er mwyn cefnogi rhywogaethau amrywiol.
- Cyflwyno polisi newid goleuadau awyr agored newydd i ddiogelu ystlumod a phryfaid - sbectrwm gwyn cynnes (<2700Kelvin) ac unedau goleuo â thonfedd frig yn uwch na 550nm
- Prosiect PLANT: Plannu Coed Mewn Ardaloedd Dinesig
- Cynnal 'asedau byw' Sir Ddinbych, eu gwella, eu diogelu a'u cadw ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant yng Nghymru: Gwell Cysylltiadau, Darparu Cyfleoedd i Bawb
- Darparu'r prosiect Ein Tirlun Hardd i gau ardaloedd â ffensys a hyrwyddo dychweliad coetiroedd
- Gweithredu newid yng nghyfansoddiad y Cyngor i ystyried mynd i'r afael â'r newid hinsawdd ac ecolegol, gan gynnwys newidiadau i dempledi achosion busnes a chyflwyno dull prisio oes gyfan
- Ymchwilio sut y gellid, drwy Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, gynnwys cynaliadwyedd a diogelu a gwella bioamrywiaeth ym mhob tendr.
- Datblygu a sicrhau bod y Grŵp Rheoli Asedau yn mabwysiadu'r Strategaeth Rheoli Asedau newydd

## **Atodiad 5 -** Prosiectau/Gweithgareddau a Newidiadau Polisi / Prosesau wedi'u Cwblhau i gyfrannu at gefnogi adferiad natur ar draws Sir Ddinbych - Defnyddio Ein Dylanwad

Cwblhawyd y prosiectau a'r gweithgareddau a'r newidiadau polisi / prosesau canlynol a nodwyd yn 2020 i gyfrannu at wella gwytnwch ecosystemau a oedd yn arbennig o ddylanwadol ac a restrwyd yn y strategaeth a fabwysiadwyd yn 2021:


- Darparu'r CDLl newydd, sy'n cyflwyno blaenoriaethau lleol ar gyfer cynllunio defnydd tir o fewn y fframwaith polisi cenedlaethol. Bydd y CDLl newydd yn sicrhau bod blaenoriaethau lleol sy'n dod i'r amlwg o ran newid hinsawdd a bioamrywiaeth yn cael eu hadlewyrchu mewn cynllunio lleol
- Ymgysylltu gyda Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned i wella bioamrywiaeth drwy adolygu a diweddaru'r Siarter Cyngor Dinas, Tref a Chymuned

## Atodiad 6- Cynnydd Rhaglen Waith Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol Sir Ddinbych


Tabl 10: Cynnydd o ran lleihau allyriadau a thargedau 2030 fesul ffynhonnell allyrru carbon

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Adeiladau | 4,060 | 9,082 | 10,151 | 5,022 |
| Fflyd | 1,077 | 2,302 | 2,693 | 1,225 |
| Cymudo | 1,478 | 2,860 | 1,848 | 1,382 |
| Goleuadau Stryd | 394 | 419 | 788 | 25 |
| Teithio ar gyfer Busnes | 110 | 251 | 550 | 141 |
| Gwastraff | 209 | 177 | 418 | Amherthnasol |


Siart 14: Allyriadau carbon blynyddol o Adeiladau, hyd at y flwyddyn adrodd 2022/23 a'r targedau blynyddol




Siart 15: Allyriadau carbon blynyddol o Gerbydau Fflyd, hyd at y flwyddyn adrodd 2022/23 a’r targedau blynyddol





Siart 16: Allyriadau carbon blynyddol o Wastraff, hyd at y flwyddyn adrodd 2022/23 a’r targedau blynyddol




Siart 17: Allyriadau carbon blynyddol o ganlyniad i Staff yn Cymudo, hyd at y flwyddyn adrodd 2022/23 a'r targedau blynyddol





Siart 18: Allyriadau carbon blynyddol o Oleuadau Stryd, hyd at y flwyddyn adrodd 2022/23 a'r targedau blynyddol




Siart 19: Allyriadau carbon blynyddol yn sgil Teithio at Ddibenion Busnes, hyd at y flwyddyn adrodd 2022/23 a'r targedau blynyddol




Siart 20: Y carbon sy'n cael ei amsugno gan Laswelltir yn flynyddol, hyd at y flwyddyn adrodd 2022/23 a'r targedau blynyddol




Siart 21: Y carbon sy’n cael ei amsugno gan goedwigoedd yn flynyddol, hyd at y flwyddyn adrodd 2022/23 a’r targedau blynyddol



## Atodiad 7 - Cymhariaeth o'r Dadansoddiad o Gadwyn Gyflenwi Sir Ddinbych ar gyfer 2019/20 (gwaelodlin) a 2022/23

Siart 22: Allyriadau'r Gadwyn Gyflenwi fesul categori gwariant yn 2019/20 (tunelli $CO_2e$)



Siart 23: Allyriadau’r Gadwyn Gyflenwi fesul categori gwariant yn 2022/23 (tunelli CO2e)

